



CYNGOR TREF Y RHYL

RHEOLAU SEFYDLOG AR GYFER:

CYFARFODYDD Y CYNGOR PWYLLGORAU IS-BWYLLGORAU A PHANELI ERAILL

a chan gynnwys esboniad ar rolau a dyletswyddau'r Aelodau ac yn benodol y rhai sydd wedi eu penodi i swyddi Maer y Dref a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor

Adolygwyd ddiwethaf Medi 2013

Rheolau Sefydlog Cyngor Tref y Rhyl

Cynnwys

Rheol Sefydlog	Pwnc	Tudalen	Rheol Sefydlog	Pwnc	Tudalen
1	Cyfarfodydd: Gofynion Cyffredinol	2-3	15	Cyfrifon a Datganiad Ariannol	10
2	Cyfarfodydd: y Cyngor, Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau	4-5	16	Amcangyfrifon / Praeseptau	10
3	Swyddog Priodol	5-6	17	Canfasio ac Argymhellion gan Gynghorwyr	11
4	Cynigion sydd angen Hysbysiad Ysgrifenedig	7	18	Archwilio Dogfennau	11
5	Cynigion nad ydynt angen Hysbysiad Ysgrifenedig	7	19	Gweithgareddau Diawdurdod	11
6	Rheolau Trafodaeth	8	20	Busnes Cyfrinachol	11
7	Cwestiynau gan Aelodau	9	21	Pwerau Llesiant	11
8	Cofnodion	9	22	Materion sy'n effeithio Gweithwyr y Cyngor	11-12
9	Ymddygiad Afreolus	9	23	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000	12
10	Dirymu Penderfyniadau Blaenorol	9	24	Cysylltiadau gyda'r Wasg / Cyfryngau	12
11	Gwariant	9	25	Cysylltu gyda Chynghorwyr Sir Ddinbych	12
12	Cyflawni a Selio Gweithredoedd Cyfreithiol	10	26	Materion Ariannol	12-13
13	Cyfarfodydd Eithriadol	10	27	Amrywio, Dirymu ac Atal Rheolau Sefydlog	13
14	Gweithgorau	10	28	Rheolau Sefydlog i'w rhoi i'r Cynghorwyr	13
Atodiadau					
1	Diffiniadau	14	3	Disgrifiadau Rôl	20-36
2	Cylch Gorchwyl Pwyllgorau	15-19			

ALLWEDDOL

Gorfodol ar gyfer cyfarfodydd llawn y Cyngor



Gorfodol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor



Gorfodol ar gyfer cyfarfodydd is-bwyllgor



Noder y defnyddir symbolau gwahanol siâp i hwyluso argraffu mewn du a gwyn

[Noder: ni ellir atal Rheolau Sefydlog Gorfodol]

CYFARFODYDD – GOFYNION CYFFREDINOL

	1.1	Cynhelir Cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor, y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â phenderfyniad Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor.
● ■ ▲	1.2	Ni chynhelir cyfarfodydd mewn eiddo sydd, adeg y cyfarfod, yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi alcohol ac eithrio pan nad oes eiddo arall ar gael yn rhad ac am ddim neu am bris rhesymol.
● ■ ▲	1.3	Rhoddir tri diwrnod gwaith clir o rybudd i aelodau o unrhyw gyfarfod mewn llythyr i'w cyfeiriad cartref oni fyddant wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw i dderbyn hysbysiad trwy ebost.
● ■ ▲	1.4	Wrth gyfrifo'r 3 diwrnod clir i roddi hysbysiad o gyfarfod i'r cynghorwyr a'r cyhoedd, nid yw'r diwrnod pan roddir yr hysbysiad, diwrnod y cyfarfod, dydd Sadwrn, Sul, diwrnod egwyl y Nadolig, diwrnod egwyl y Pasg na gŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus yn cyfrif.
● ■ ▲	1.5	Caiff y person sy'n llywyddu cyfarfod ymarfer holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd mewn perthynas â chynnal y cyfarfod.
● ■	1.6	Bydd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd oni fyddai eu presenoldeb yn rhagfarnus i fuddiant cyhoeddus oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod neu am resymau arbennig eraill. Gwaherddir y cyhoedd o ran o'r cyfarfod neu o'r cyfarfod cyfan gyda phenderfyniad a fydd yn rhoi'r rhesymau dros wahardd y cyhoedd.
	1.7	Yng nghyfarfodydd y Cyngor, bydd Aelodau yn codi llaw wrth ofyn am gael siarad ac yn sefyll o gael eu galw i siarad oni fydd y Cadeirydd yn caniatáu iddynt eistedd oherwydd eiddilwch.
	1.8	Ym mhob cyfarfod arall o'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau, bydd yr Aelodau yn codi llaw wrth ofyn am gael siarad ac aros ar eu heistedd o gael eu galw i siarad.
	1.9	Bydd unrhyw berson y gelwir arnynt i siarad yn cyfeirio eu sylwadau i'r Gadair ac nid i'r aelodau eraill neu Siaradwyr Gwadd.
	1.10	Dim ond un person sy'n cael siarad ar y tro. Os bydd mwy nag un person eisiau siarad, bydd y Cadeirydd yn cyfarwyddo trefn y siarad.
	1.11	Bydd yr holl Aelodau yn parchu hawl siaradwyr eraill i annerch y Cyngor heb dorri ar draws a byddant yn aros yn dawel yn ystod areithiau gan Aelodau eraill.
	1.12	Pryd bynnag y bydd Cadeirydd unrhyw gyfarfod yn codi yn ystod trafodaeth, bydd yr holl Aelodau eraill yn aros ar eu heistedd ac yn dawel.
● ■ ▲	1.13	Ni chaniateir ffotograffiaeth, recordio, darlledu neu drosglwyddo trafodion cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd y Cyngor ymlaen llaw (yn ysgrifenedig).
● ■	1.14	Yn unol â rheol sefydlog 1.6 uchod, rhoddir cyfleusterau rhesymol i'r wasg i gymryd eu hadroddiad o ran o'r cyfarfod neu'r cyfan ohono lle mae ganddynt hawl i fod yn bresennol.
● ■	1.15	Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n nodi fel arall, gellir gwneud unrhyw beth a awdurdodir neu sydd angen ei wneud gan, i neu gerbron Maer y Dref neu Gadeirydd pwyllgor sefydlog gael ei wneud gan, i neu gerbron y Dirprwy Faer / Is-gadeirydd.
● ■	1.16	Bydd y Cadeirydd penodedig, os yn bresennol, yn llywyddu cyfarfod Pwyllgor Sefydlog. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu. Os bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewisir gan y Cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu'r cyfarfod.
Pleidleisio		
● ■ ▲	1.17	Yn amodol ar reol 1.26 isod, penderfynir ar yr holl gwestiynau yng nghyfarfod y Cyngor gan fwyafrif y Cynghorwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio arnynt. Mewn perthynas â Phwyllgorau /Is-bwyllgorau dim ond Aelodau Penodedig y Pwyllgor/Is-bwyllgor fydd â hawl i bleidleisio.
● ■ ▲	1.18	Caiff Cadeirydd cyfarfod roddi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater a roddir i bleidlais, ac os oes nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn caiff ddefnyddio ei bleidlais fwrw boed wedi rhoi pleidlais wreiddiol ai peidio.
●	1.19	Oni fo'r rheolau sefydlog yn dweud fel arall, bydd pleidleisio ar unrhyw fater yn cael ei wneud trwy godi dwylo. Ar gais Cynghorydd, gellir cofnodi'r pleidlais ar unrhyw gwestiwn i ddangos os yw pob cynghorydd sy'n bresennol ac yn pleidleisio o blaid neu yn erbyn y cwestiwn hwnnw (neu wedi ymatal). Rhaid gwneud cais o'r fath cyn rhoi'r mater i bleidlais.
● ■ ▲	1.20	Os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n bresennol ac â hawl i bleidleisio yn gofyn am hynny, gellir cynnal pleidlais gudd, oni fo Aelod yn gofyn am gofnodi'r pleidlais dan 1.19 uchod.

	1.21	Os bydd Aelod yn gofyn am hynny, cofnodir eu pleidlais o blaid neu yn erbyn neu'r ffaith iddynt ymatal rhag pleidleisio yng nghofnodion y cyfarfod, oni fo'r bleidlais wedi ei chymryd yn unol â Rheol Sefydlog 1.20 uchod. Rhaid gwneud y cais yn ystod neu yn union wedi cymryd y bleidlais a chyn ystyried yr eitem nesaf ar y Rhaglen.
Pleidleisio ar Benodiadau		
● ■ ▲	1.22	Lle mae 3 pherson neu fwy wedi eu henwebu ar gyfer swydd i'w llenwi gan y Cyngor, ac nid oes yr un ohonynt wedi cael mwyafrif pendant o bleidleisiau o'u plaid, bydd enw'r person a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac fe gymerir pleidlais newydd. Bydd y broses hon yn parhau nes ceir mwyafrif pleidleisiau o blaid un person. Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, gall y Cadeirydd ddefnyddio ei bleidlais fwrw.
Ymddiheuriadau am absenoldeb		
● ■ ▲	1.23	Os bydd Cynghorydd, cyn y cyfarfod, wedi cyflwyno rhesymau am eu habsenoldeb yn y cyfarfod neu gyfarfodydd yn y dyfodol a gaiff yna ei gymeradwyo neu ei wrthod gan benderfyniad, bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth/gwrthodiad.
Cod Ymddygiad		
● ■ ▲	1.24	Bydd y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn berthnasol i gynghorwyr mewn perthynas â'r cyfarfod cyfan.
● ■ ▲	1.25	Bydd buddiant sy'n deillio o'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor, bodolaeth a natur yr hwn sydd angen ei ddatgelu gan y Cynghorydd mewn cyfarfod, yn cael ei gofnodi yn y cofnodion yn amodol ar y ffaith bod yr Aelod naill ai (i) wedi datgelu natur y buddiant eisoes, neu (ii) os nad yw wedi datgelu yn flaenorol, wedi cwblhau ffurflen ddatgelu yn y cyfarfod pan ddatgelir y buddiant am y tro cyntaf.
Cworwm		
●	1.26	Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod oni fydd o leiaf traean cyfanswm yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod a heb eu rhwystro rhag cymryd rhan yn bresennol ac mewn unrhyw achos, ni fydd cworwm unrhyw gyfarfod yn llai na 3.
● ■ ▲	1.27	Os bydd cyfarfod yn colli cworwm, ni drafodir unrhyw fusnes ac fe gaiff y cyfarfod ei ohirio. Bydd unrhyw fusnes ar ôl mewn cyfarfod sydd wedi ohirio oherwydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf neu ar ddiwrnod a bennwyd gan Gadeirydd y cyfarfod.
Egwyl		
	1.28	Ni chynhelir unrhyw gyfarfod o'r Cyngor na'i Bwyllgorau yn ystod mis Awst
● ■ ▲	1.29	Yn ystod cyfnodau o Egwyl, caiff yr awdurdod i weithredu ei ddirprwyo i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad naill â Maer y Dref neu Gadeirydd perthnasol y Pwyllgor fel y bo'n briodol.
Cynllun yr Iaith Gymraeg		
● ■ ▲	1.30	Cynhelir Cyfarfodydd y Cyngor yn unol â darpariaethau Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.
Egwyl Gysur		
	1.31	Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, gellir galw egwyl gysur yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu ei Bwyllgorau sydd wedi bod yn eistedd am ddwy awr neu fwy.
Terfynu'r Cyfarfod		
	1.32	Rhaid i gyfarfodydd ddod i ben erbyn 9.00pm a bydd unrhyw fusnes nad yw wedi ei gwblhau yn cael ei ohirio tan ddyddiad a bennir gan y Cadeirydd ac a gyhoeddir yn y cyfarfod.

1. Cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor		
●	2.1	Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar neu o fewn 14 diwrnod ar ôl y diwrnod pan fydd y cynghorwyr newydd a etholwyd yn cymryd eu swyddi.
●	2.2	Mewn blwyddyn pan nad oes etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ddiwrnod ym mis Mai yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor.
●	2.3	Os na phennir amser arall, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor am 6pm.
●	2.4	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor (yn unol â pholisi'r Cyngor) fydd y mater cyntaf i'w gwblhau yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.
●	2.5	Mewn blwyddyn etholiad, bydd Cadeirydd y Cyngor, oni fo wedi ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu'r cyfarfod blynyddol nes etholir ei olynydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.
●	2.6	Mewn blwyddyn etholiad, bydd Is-gadeirydd y Cyngor, oni fo wedi ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys, yn dal ei swydd tan yn union ar ôl etholiad Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.
●	2.7	Mewn blwyddyn etholiad, os nad yw Cadeirydd y Cyngor sy'n ymddeol wedi ei ail-ethol fel aelod o'r Cyngor ac yn unol â 2.5 uchod mae'n llywyddu yn y Cyfarfod Blynyddol, ni fydd ganddo bleidlais wreiddiol mewn perthynas ag ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ond rhaid iddo roi pleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal. Os bydd y Cadeirydd sy'n gadael yn ymddeol neu'n anghymwys yna bydd yr Is-gadeirydd sy'n ymddeol yn llywyddu fel uchod.
●	2.8	Mewn blwyddyn etholiad, os yw Cadeirydd y Cyngor sy'n ymddeol wedi ei ail-ethol fel aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod nes bydd Cadeirydd newydd y Cyngor wedi ei ethol. Caiff roi pleidlais wreiddiol mewn perthynas ag ethol Cadeirydd newydd y Cyngor a rhaid iddo roddi pleidlais fwrw os yw'r bleidlais yn gyfartal.
●	2.9	Ar ôl ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd trefn y busnes fel a ganlyn. <ul style="list-style-type: none"> i. Derbyn datganiad Cadeirydd y Cyngor yn derbyn y swydd ii. Derbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb iii. Mewn blwyddyn etholiad, cynghorwyr yn cyflwyno eu datganiadau yn derbyn swydd a/neu os na dderbynnir hwy bryd hynny, penderfynu pryd y dylid eu derbyn neu a ddylid datgan swydd wag ar gyfer Cynghorydd. iv. Mewn blwyddyn etholiad, llenwi unrhyw swyddi gwag sydd ar ôl yn yr etholiad oherwydd diffyg enwebiadau dilys v. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a derbyn a chydabod cofnodion a/neu benderfynu ar argymhellion a wnaed gan bwyllgorau. vi. Cyhoeddi penodiad unrhyw Ryddfreinwyr Mygedol newydd. vii. Adolygu amodau cyfeirio pwyllgorau ac is-bwyllgorau a phenderfynu ar yr aelodau arnynt. viii. Penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Sefydlog. ix. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd, cadarnhau'r amodau cyfeirio, nifer yr aelodau (gan gynnwys cynghorwyr dirprwyol, os yn briodol) a phenderfynu ar enwebiadau iddynt. x. Penodi cynrychiolwyr ar Fudiadau Allanol. xi. Penodi neu ail-gadarnhau penodiadau Llywodraethwyr Ysgol. xii. Cadarnhau Rhaglen Cyfarfodydd Pwyllgorau Sefydlog hyd nes Cyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor.
	2.10	Gall y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol, benodi pwyllgorau sefydlog a gall ar unrhyw adeg arall benodi pwyllgorau eraill a all fod eu hangen, a: <ul style="list-style-type: none"> i. Bydd yn penderfynu ar eu hamodau cyfeirio; ii. Gall ganiatáu i bwyllgorau benderfynu ar ddyddiadau eu cyfarfodydd; iii. Bydd yn penodi a phenderfynu cyfnod yn y swydd aelodau pwyllgor o'r fath sy'n gynghorwyr ac nad ydynt yn gynghorwyr (oni waherddir penodi rhai nad ydynt yn gynghorwyr dan y gyfraith) fel eu bod yn y swydd ddim hwyrach na'r cyfarfod blynyddol nesaf; iv. Gall benodi cynghorwyr dirprwyol i bwyllgor y mae ei rôl yn lle cynghorwyr cyffredin mewn cyfarfod o bwyllgor os bydd cynghorwyr cyffredin ar y pwyllgor wedi cadarnhau i'r Swyddog Priodol cyn i'r cyfarfod ddechrau na fedrent fynychu; ni chaniateir i


		<p>aelod cyffredin o bwyllgor sydd wedi ei ddisodli mewn cyfarfod gan ddirprwy aelod (yn unol â rheol sefydlog 15(a)(iv) uchod) gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar fusnes yn y cyfarfod hwnnw a chaiff ond siarad yn ystod unrhyw sesiwn cyfranogiad cyhoeddus yn ystod y cyfarfod;</p> <p>v. Gall yn unol â'r rheolau sefydlog, ddiddymu pwyllgor ar unrhyw adeg</p>
	2.11	Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn Aelodau o bob Pwyllgor.
	2.12	Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd unrhyw Bwyllgor yn Aelodau unrhyw Is-bwyllgor a benodir gan eu Pwyllgor.
Cyfarfodydd Cyffredin y Cyngor		
●	2.12	Bydd y Maer, os yw'n bresennol, yn llywyddu cyfarfod y Cyngor. Os bydd y Maer yn absennol o'r cyfarfod, bydd y Dirprwy Faer, os yw'n bresennol, yn llywyddu. Os bydd y Maer a'r Dirprwy Faer yn absennol o'r cyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewisir gan y Cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.
●	2.13	<p>Ar ôl ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod (os oes angen), bydd trefn y busnes fel a ganlyn.</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb ii. Derbyn datganiadau yn derbyn swydd (os oes rhai) ac ymgymeriadau i lynu at God Ymddygiad y Cyngor, neu os na dderbynnir hwy bryd hynny, penderfynu pryd y dylid eu derbyn iii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a derbyn a chydabod cofnodion a/neu benderfynu ar argymhellion a wnaed gan bwyllgorau ac awdurdodi Cadeiryddion Cyfarfodydd i lofnodi'r Cofnodion fel cofnod cywir. iv. Delio ag unrhyw fusnes sydd angen ei benderfynu gan y Cyngor yn benodol gan Statud v. Delio ag unrhyw fusnes, os oes unrhyw beth, sydd ar ôl o'r cyfarfod diwethaf vi. Derbyn cyflwyniadau a gymeradwywyd ymlaen llaw gan gyrff allanol vii. Derbyn ac ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau'r Cyngor viii. Derbyn ac ystyried adroddiadau gan swyddogion y Cyngor ix. Awdurdodi llofnodi dogfennau x. Ystyried cynigion yn y drefn y'u cyflwynwyd hwy xi. Penderfynu pa gamau i'w cymryd ar unrhyw faterion sydd angen sylw brys cyn cyfarfod nesaf a drefnwyd y Pwyllgor Sefydlog perthnasol xii. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd; cadarnhau'r amodau cyfeirio, nifer yr aelodau (gan gynnwys cynghorwyr dirprwyol, os yn briodol) a phenderfynu ar enwebiadau iddynt xiii. Mabwysiadu neu fel arall bolisiâu a gweithdrefnau'r Cyngor xiv. Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a phenderfynu sut ymatebir iddynt yn unol â pholisi'r Cyngor xv. Derbyn materion o wybodaeth gan yr Aelodau'n unig, sylwedd y rhain sydd wedi ei gytuno ymlaen llaw gyda Chadeirydd y Cyngor cyn i'r cyfarfod ddechrau xvi. Penderfynu ar unrhyw eitemau cyfrinachol sy'n destun Rheol Sefydlog 1.6 uchod
	2.14	Mewn perthynas â 2.13 (xiv) uchod, cofnodir cwestiynau a godwyd gan aelodau'r cyhoedd a sut ymatebwyd iddynt a'u cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.
Cyfarfodydd Pwyllgor		
■	2.15	Bydd Cadeirydd y Pwyllgor, os yn bresennol, yn llywyddu yn y cyfarfod. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewisir gan y Cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu'r cyfarfod.
	2.16	<p>Ar ôl ethol Cadeirydd y cyfarfod (os oes angen) bydd trefn y busnes fel a ganlyn.</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb ii. Delio ag unrhyw fusnes sydd angen ei benderfynu yn benodol gan y Cyngor dan Statud iii. Delio ag unrhyw fusnes, os oes unrhyw beth, ar ôl o'r cyfarfod diwethaf iv. Derbyn ac ystyried adroddiadau gan Is-bwyllgorau'r Pwyllgor

		<ul style="list-style-type: none"> v. Derbyn ac ystyried adroddiadau gan swyddogion y Cyngor. vi. Derbyn a phenderfynu ar ohebiaeth a dogfennau ymgynghorol vii. Awdurdodi llofnodi dogfennau viii. Penodi unrhyw is-bwyllgorau newydd; cadarnhau amodau cyfeirio, nifer yr aelodau (gan gynnwys cynghorwyr dirprwyol, os yn briodol) a phenderfynu ar enwebiadau iddynt. ix. Penderfynu ar eitemau gan Aelodau, sylwedd y rhain sydd wedi ei nodi ar y Rhaglen x. Derbyn materion o wybodaeth gan Aelodau yn unig, sylwedd y rhain sydd wedi ei gytuno ymlaen llaw gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn i'r cyfarfod ddechrau. xi. Penderfynu ar unrhyw faterion cyfrinachol sy'n destun Rheol Sefydlog 1.6 uchod.
Presenoldeb Pobl nad ydynt yn Aelodau Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau mewn Cyfarfodydd		
	2.17	Caiff aelod sydd wedi cyflwyno cynnig, sydd wedi ei gyfeirio at unrhyw Bwyllgor/Is-bwyllgor nad yw'n Aelod ohono, fynychu i esbonio ei gynnig i'r Pwyllgor/is-bwyllgor, ond ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth ac ni fydd yn pleidleisio.
	2.18	Bydd gan unrhyw Aelod Cyngor, oni fo'r Cyngor yn cyfeirio fel arall, hawl i fod yn bresennol yng Nghyfarfodydd unrhyw Bwyllgor [ac eithrio'r Pwyllgor Staffio] neu Is-bwyllgor nad ydynt yn aelod ohonynt ond ni chânt siarad (ac eithrio dan 2.17 uchod) oni fo'r Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddynt, ac ni chânt bleidleisio.


3. Swyddog Priodol

	3.1	<p>Swyddog Priodol y Cyngor fydd naill ai</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Clerc y Dref neu weithiwr arall a gaiff ei enwebu gan y Cyngor o bryd i'w gilydd, neu (ii) Gweithiwr arall a benodir gan y Cyngor i ymgymryd â rôl y Swyddog Priodol pan fydd y Swyddog Priodol yn absennol. <p>Bydd y Swyddog Priodol a'r gweithiwr a benodwyd i weithredu felly yn absenoldeb y Swyddog Priodol yn cyflawni'r dyletswyddau a roddwyd i'r Swyddog Priodol yn y rheolau sefydlog.</p>
●●▲	3.2	<p>Bydd Swyddog Priodol y Cyngor yn gwneud y canlynol.</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Derbyn datganiadau derbyn swydd a chytundeb Aelodau i gadw at God Ymddygiad y Cyngor. (ii) Llofnodi a chyflwyno i gynghorwyr trwy ddsbarthu neu bostio i'w cartrefi wŷs yn cadarnhau amser, dyddiad, lleoliad a rhaglen cyfarfod o'r Cyngor a chyfarfod pwyllgor ac is-bwyllgor o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod oni fo Cynghorwyr wedi gofyn yn benodol am ddsbarthiad trwy ebost. Anfonir rhaglenni pwyllgor yn electronig. Bydd copïau caled o'r gwaith papur ar gael o Swyddfa'r Cyngor Tref yn amodol ar roddi rhybudd o 24 awr. (iii) Rhoi hysbysiad i'r cyhoedd o amser, dyddiad, lleoliad a rhaglen o leiaf 3 diwrnod clir cyn cyfarfod y Cyngor neu gyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor (cyn belled â bod yr hysbysiad cyhoeddus gyda rhaglen cyfarfod eithriadol y Cyngor a alwyd gan gynghorwyr wedi ei lofnodi ganddyt hwy). (iv) Sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd ar gael i'w harchwilio. (v) Derbyn a chadw copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill. (vi) Ardystio copïo o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor. (vii) Cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd ac unrhyw newid iddo a chadw copïau ohonynt ar gael i'w harchwilio (yn amodol ar gytundeb Swyddog Monitro'r Cyngor Sir) (viii) Cadw'r cofnodion priodol sydd eu hangen cyn ac ar ôl cyfarfodydd gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd. (ix) Derbyn ac anfon gohebiaeth gyffredinol a hysbysiadau ar ran y Cyngor ac eithrio lle mae penderfyniad i'r gwrthwyneb. (x) Trefnu bod gweithredoedd cyfreithiol yn cael eu llofnodi gan 2 gynghorydd a'u tystio (<i>Gweler hefyd reolau sefydlog 14(a) a (b).</i>) (xi) Unrhyw fater sy'n ofynnol dan statud i'w ymgymryd gan Swyddog Priodol y Cyngor.

4. Cynigion sydd angen hysbysiad ysgrifenedig

	4.1	Ni ellir gwneud cynnig mewn cyfarfod oni fydd wedi ei gynnwys yn y rhaglen a gyhoeddwyd, ac mae'r cynigiwr wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r geiriad i Swyddog Priodol y Cyngor o leiaf 7 diwrnod clir cyn y cyfarfod nesaf.
---	-----	---

5. Cynigion nad ydynt angen hysbysiad ysgrifenedig

	5.1	<p>Gellir gwneud cynigion ar y materion canlynol heb hysbysiad ysgrifenedig.</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Penodi person i lywyddu cyfarfod. ii. Cymeradwyo absenoldeb cynghorwyr. iii. Cymeradwyo cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol. iv. Cywiro camgymeriad yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol. v. Delio â busnes, os oes unrhyw beth, sydd ar ôl o'r cyfarfod blaenorol. vi. Newid trefn y busnes ar y rhaglen am resymau brys neu hwylustod. vii. Symud i'r mater nesaf ar y rhaglen. viii. Terfynu neu ohirio trafodaeth. ix. Cyfeirio trwy ddirprwyaeth ffurfiol i bwyllgor neu is-bwyllgor neu i weithiwr. x. Penodi pwyllgor neu is-bwyllgor neu unrhyw gynghorwyr (gan gynnwys dirprwyon) iddynt. xi. Derbyn enwebiadau i bwyllgor neu is-bwyllgor. xii. Diddymu pwyllgor neu is-bwyllgor. xiii. Cydnabod cofnodion cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor. xiv. Ystyried adroddiad a/neu argymhellion a wnaed gan bwyllgor neu is-bwyllgor neu gan swyddog. xv. Ystyried adroddiad a/neu argymhellion a wnaed gan swyddog, cynghorydd proffesiynol, arbenigwr neu ymgynghorydd. xvi. Awdurdodi gweithredoedd cyfreithiol i'w llofnodi gan ddau gynghorydd a'u hardystio. xvii. Newid cynnig sy'n berthnasol i'r cynnig gwreiddiol neu'r prif gynnig dan ystyriaeth na fydd yn cael yr effaith o'i ddirymu. xviii. Ymestyn y cyfyngiad amser ar gyfer areithiau. xix. Gwahardd y wasg a'r cyhoedd am y cyfan neu ran o gyfarfod. xx. Tawelu neu wahardd o'r cyfarfod Gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd am ymddygiad afreolus. xxi. Rhoi caniatâd y Cyngor os oes angen caniatâd o'r fath dan y rheolau sefydlog. xxii. Atal unrhyw reol sefydlog ac eithrio'r rhai sy'n orfodol dan y gyfraith. xxiii. Gohirio'r cyfarfod. xxiv. Penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol a gwneud trefniadau i'r cynrychiolwyr hynny adrodd yn ôl ar weithgareddau'r gyrff allanol. xxv. Ateb cwestiynau gan gynghorwyr.
	5.2	Os bydd cynnig yn dod o fewn amodau cyfeirio pwyllgor neu is-bwyllgor neu o fewn y pwerau dirprwyedig a roddwyd i swyddog, gellir ei gyfeirio at y pwyllgor neu'r is-bwyllgor neu'r swyddog oni fo'r Cadeirydd yn cyfeirio bod y mater yn cael ei drin yn y cyfarfod presennol oherwydd ei fod yn fater brys neu er hwylustod.




6. Rheolau trafodaeth

	6.1	Ystyrir materion a gynhwyswyd ar y rhaglen yn y drefn y maent yn ymddangos ar y rhaglen oni fo'r drefn yn cael ei newid yn unol â chyfeiriad y Cadeirydd am resymau hwylustod.
	6.2	Ni fydd cynnig yn cael ei ystyried oni fydd wedi ei gynnig a'i eilio.
	6.3	Caiff cynnig a gynhwysir ar raglen nad yw'n cael ei gynnig gan y cynghorydd a'i cyflwynodd ei drin fel un sydd wedi ei dynnu'n ôl.
	6.4	Ni ystyrir cynnig i newid cynnig gwreiddiol neu'r prif gynnig oni fo rhybudd priodol wedi ei roddi ar ôl eilio'r cynnig gwreiddiol neu'r prif gynnig a bydd hysbysiad o newid o'r fath, os gofynnir am hynny gan y Caderydd, yn cael ei ysgrifennu ar bapur a'i roddi i'r Cadeirydd a fydd yn penderfynu ym mha drefn y cânt eu hystyried.
	6.5	Caiff cynigiwr dynnu cynnig neu welliant yn ôl gyda chaniatâd yr eilwr.
	6.6	Bydd unrhyw welliant i gynnig naill ai yn: <ul style="list-style-type: none"> i. Gadael geiriau allan; ii. Ychwanegu geiriau; iii. Gadael geiriau allan ac ychwanegu geiriau eraill.
	6.7	Dim ond un gwelliant a gaiff ei gynnig a'i drafod ar y tro, a bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar y drefn. Ni ddylid gwneud gwelliant pellach i gynnig nes bydd y gwelliant blaenorol wedi ei drin.
	6.8	Er gwaethaf Rheol Sefydlog 6.7 uchod, gellir trafod un gwelliant neu fwy gyda'i gilydd os bydd y Cadeirydd yn ystyried bod hyn yn hwylus, ond dylid pleidleisio arnynt ar wahân.
	6.9	Cyfyngir nifer y gwelliannau i gynnig gwreiddiol neu brif gynnig, a gaiff eu cynnig gan gynghorydd, i un.
	6.10	Os na chaiff y gwelliant ei dderbyn, cynigir y gwelliannau eraill yn y drefn a bennwyd gan y Cadeirydd.
	6.11	Os caiff gwelliant ei dderbyn, bydd y cynnig greiddiol, fel y'i diwygiwyd, yn disodli'r cynnig gwreiddiol ac yn dod yn brif gynnig mewn perthynas â'r hwn y gellir gwneud unrhyw welliant pellach.
	6.12	Ni fydd unrhyw araith gan Aelod yn fwy na 5 munud. Bydd cynigiwr cynnig neu gynigiwr gwelliant hefyd yn cael hawl i ateb, heb fod yn fwy na 3 munud.
	6.13	Lle derbynnir cyfres o welliannau i gynnig gwreiddiol, bydd gan gynigiwr y cynnig gwreiddiol yr hawl i ateb mewn perthynas â'r prif gynnig ar ddiwedd un y drafodaeth ac yn union cyn rhoi'r mater i bleidlais.
	6.14	Yn ystod y drafodaeth ar gynnig, caiff cynghorydd dorri ar draws dim ond ar fater o drefn neu esboniad personol a bydd y cynghorydd y torrwyd ar ei draws yn rhoi'r gorau i siarad. Dylai'r cynghorydd sy'n codi mater o drefn nodi'r rheol sefydlog y mae'n ystyried iddi gael ei thorri neu nodi'r afreoleidd-dra yn y cyfarfod sy'n ei bryderu.
	6.15	Bydd Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar y mater o drefn a bydd y penderfyniad yn derfynol ac ni fydd yn destun trafodaeth.
	6.16	Gyda chaniatâd yr eiliwr a/neu'r cyfarfod, caiff y cynigiwr dynnu cynnig neu welliant yn ôl. Ni chaiff cynghorydd siarad ar y cynnig na'r gwelliant oni fydd caniatâd i dynnu'r cynnig neu'r gwelliant yn ôl wedi ei wrthod.
● ■ ▲	6.17	Pan fydd cynnig cynghorydd yn cael ei drafod, ni ddylid gwneud cynnig arall ac eithrio: <ul style="list-style-type: none"> i. I newid y cynnig; ii. I symud ymlaen i'r mater nesaf; iii. I ohirio'r drafodaeth; iv. I roddi'r cynnig i bleidlais; v. I ofyn i berson fod yn dawel neu i ofyn iddynt adael y cyfarfod; vi. I gyfeirio cynnig i bwyllgor neu is-bwyllgor er ystyriaeth; vii. I wahardd y cyhoedd a'r wasg; viii. I ohirio'r cyfarfod; ix. I atal unrhyw reol sefydlog, ac eithrio'r rhai sy'n orfodol.
	6.18	Mewn perthynas â rheol sefydlog 6.17 uchod, rhaid i'r Cadeirydd fod yn fodlon yn gyntaf bod y cynnig wedi ei drafod yn ddigonol cyn ei eilio a'i roi i bleidlais. Bydd y Cadeirydd yn galw ar gynigiwr y cynnig sydd dan drafodaeth i ddefnyddio neu ildio ei hawl i ateb a rhoi'r cynnig i bleidlais ar ôl defnyddio neu ildio'r hawl honno. Ni fydd gohirio trafodaeth neu'r cyfarfod yn rhagfarnu hawl y cynigiwr i ateb ar ôl ail-afael yn y drafodaeth.

7. Cwestiynau gan Aelodau

	7.1	Caiff cynghorydd ofyn am ateb i gwestiwn ynglŷn ag unrhyw fusnes y Cyngor cyn belled â bod 5 diwrnod clir o rybudd o'r cwestiwn wedi ei roddi i'r Swyddog Priodol.
--	-----	--



8. Cofnodion

	8.1	Bydd cofnodion cyfarfod yn cofnodi enwau cynghorwyr sy'n bresennol a'r rhai sydd wedi cyflwyno ymddiheuriad am absenoldeb.
	8.2	Bydd cofnodion Cyfarfod yn cofnodi'r mater a drafodwyd, unrhyw bwyntiau perthnasol a godwyd yn ystod y drafodaeth, yr hyn a gynigiwyd ac a eiliwyd, a'r penderfyniad a gytunwyd.
	8.3	Bydd cofnodion, gan gynnwys unrhyw welliant i'r cywiro, yn cael eu cadarnhau trwy benderfyniad a'u llofnodi gan gadeirydd y cyfarfod a byddant yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn berthnasol iddo.
	8.4	Os nad yw Cadeirydd y cyfarfod yn ystyried bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y maent yn ymwneud ag o, bydd ef/hi yn llofnodi'r cofnodion a chynnwys paragraff fel a ganlyn, neu'n cael yr un effaith: "Nid yw Cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu bod cofnodion cyfarfod y () a gynhaliwyd ar [dyddiad] mewn perthynas â () yn gofnod cywir ond ni dderbyniwyd ei farn ef/ei barn hi gan fwyafrif y () ac fe gadarnheir y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau."
	8.5	Ar ôl penderfyniad sy'n cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, bydd unrhyw gofnodion drafft neu nodiadau o'r cyfarfod yn cael eu dinistrio.
	8.6	Bydd Cofnodion y Cyngor, y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw etholwr llywodraeth leol yn y gymuned heb godi tâl.



9. Ymddygiad afreolus

	9.1	Rhaid i'r holl Aelodau gadw at y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
	9.2	Ni ddylai unrhyw aelod ymyrryd â thrafodaeth busnes mewn cyfarfod nac ymddwyn yn annymunol neu'n amhriodol neu mewn modd sydd yn niweidio enw da'r Cyngor.
	9.3	Os, ym marn y Cadeirydd, bydd rheol sefydlog 9.2 uchod yn cael ei thorri, bydd y Cadeirydd yn mynegi'r farn honno ac ar ôl hynny caiff unrhyw gynghorydd (gan gynnwys y Cadeirydd) gynnig bod y person yn cael ei dawelu neu ei wahardd o'r cyfarfod a bydd y cynnig, os caiff ei eilio, yn cael ei roi i bleidlais ar unwaith a heb drafodaeth.
	9.4	Os bydd penderfyniad a gymerir yn unol â rheol sefydlog 9.3 uchod yn cael ei anufuddhau, caiff y Cadeirydd gymryd camau pellach sy'n rhesymol angenrheidiol i orfodi'r penderfyniad neu caiff ef/hi ohirio'r cyfarfod.



10. Dirymu penderfyniadau blaenorol

	10.1	Ni fydd penderfyniad (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) y Cyngor yn cael ei wyrdroi o fewn 6 mis ac eithrio trwy gyfrwng cynnig arbennig, gyda'r hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys enwau o leiaf 7 o gynghorwyr y Cyngor, neu gan gynnig a wneir ar ôl adroddiad neu argymhelliad gan bwyllgor.
	10.2	Pan fydd cynnig arbennig neu unrhyw gynnig arall a wneir dan reol sefydlog 11(a) uchod wedi ei drin, ni chaniateir gwneud cynnig tebyg o fewn 6 mis arall.



11. Gwariant

	11.1	Bydd unrhyw wariant a achosir gan y Cyngor yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.
	11.2	Caiff rheoliadau ariannol y Cyngor eu hadolygu unwaith y flwyddyn.
	11.3	Caiff rheoliadau ariannol y Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi talu arian wrth ymgymryd ag unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor i'w ddirprwyo i bwyllgor, is-bwyllgor neu i swyddog.

12. Cyflawni a selio gweithredoedd cyfreithiol

	12.1	Ni fydd gweithred gyfreithiol yn cael ei chyflawni ar ran y Cyngor oni fo wedi ei hawdurdodi gan benderfyniad.
	12.2	Yn unol â phenderfyniad a wnaed dan reol sefydlog 14(a) uchod, caiff unrhyw ddau aelod o'r Cyngor lofnodi, ar ran y Cyngor, unrhyw weithred sydd ei hangen dan y gyfraith a bydd y Swyddog Priodol yn ardystio eu llofnodion.


13. Cyfarfodydd eithriadol

	13.1	Caiff Cadeirydd y Cyngor alw cyfarfod eithriadol o'r Cyngor ar unrhyw adeg.
	13.2	Os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn galw neu os yw'n gwrthod galw cyfarfod eithriadol y Cyngor o fewn 7 diwrnod o gael cais i wneud hynny gan ddau gynghorydd, caiff y ddau gynghorydd hynny alw cyfarfod eithriadol y Cyngor. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus statudol sy'n rhoi amser, lleoliad a rhaglen cyfarfod o'r fath gael ei lofnodi gan y ddau gynghorydd.
	13.3	Caiff Cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) alw cyfarfod eithriadol y pwyllgor neu'r is-bwyllgor ar unrhyw adeg.


14. Gweithgorau

	14.1	Caiff y Cyngor benodi gweithgorau yn cynnwys nifer o gynghorwyr a phobl nad ydynt yn gynghorwyr.
	14.2	Ni chaiff Gweithgorau gynnwys dim ond pobl nad ydynt yn gynghorwyr.
	14.3	Ni ellir dirprwyo unrhyw awdurdod i weithredu i unrhyw Weithgor heb ganiatâd penodol cyfarfod y Cyngor. Dylid nodi cwmpas unrhyw awdurdod i weithredu yng nghofnodion perthnasol y Cyngor.
	14.4	Lle mae gan Weithgor awdurdod dirprwyedig i weithredu yna bydd yn dod dan yr holl reolau sefydlog sy'n ymwneud ag Is-bwyllgorau.

15. Cyfrifon a Datganiad Ariannol

	15.1	Rhaid i'r holl daliadau gan y Cyngor gael eu hawdurdodi, eu cymeradwyo a'u talu yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, a dylid eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn.
	15.2	Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi i bob cynghorydd cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 31 Marth, 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddatganiad yn crynhoi derbyniadau a thaliadau'r Cyngor am bob chwarter a'r balansau a ddelir ar ddiwedd chwarter. Dylai'r datganiad hwn gynnwys cymhariaeth gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol. Dylid cyflwyno Datganiad Ariannol a baratowyd ar y sylfaen cyfrifo priodol (derbyniadau a thaliadau, neu incwm a gwariant) ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth a'i gyflwyno i bob cynghorydd cyn diwedd y mis Mai sy'n dilyn. Dylid cyflwyno Datganiad Cyfrifon y Cyngor (sy'n destun archwiliad allanol), gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol cyn 30 Mehefin.

16. Amcangyfrifon / praeseptau

	16.1	Bydd y Cyngor yn cymeradwyo amcangyfrifon ysgrifenedig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn ei gyfarfod cyn diwedd mis Ionawr.
	16.2	Dylai unrhyw bwyllgor sy'n dymuno gwario arian roddi amcangyfrif ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol o'r gwariant a argymhellir ar gyfer y flwyddyn i ddod ddim hwyrach na'r 1af Rhagfyr blaenorol.

17. Canfasio ac Argymhellion gan gynghorwyr

[D.S. gweler hefyd ddarpariaethau Cod Ymddygiad mewn perthynas â cheisiadau am gymorth ariannol]

● ■ ▲	17.1	Bydd canfasio cynghorwyr neu aelod pwyllgor neu is-bwyllgor, yn union- neu'n anuniongyrchol, i gael penodiad i neu gan y Cyngor yn anghymhwys o'r ymgeisydd rhag cael penodiad o'r fath. Bydd y Swyddog Priodol yn datgelu gofynion y rheol sefydlog hon i bob ymgeisydd.
● ■ ▲	17.2	Ni ddylai cynghorydd nac aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn i berson am gael penodiad i neu gan y Cyngor nac argymell person ar gyfer penodiad o'r fath neu ddyrchafiad; ond, er gwaethaf hynny, caiff person o'r fath roddi eirida ysgrifenedig o allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd i'w gyflwyno i'r cyngor gyda chais am y penodiad.
● ■ ▲	17.3	Bydd y rheol sefydlog hon yn berthnasol i dendrau fel petai'r person sy'n cyflwyno'r tendr yn ymgeisydd am swydd.

18. Archwilio dogfennau

	18.1	Yn amodol ar reolau sefydlog i'r gwrthwyneb neu mewn perthynas â materion sy'n gyfrinachol, caiff cynghorydd, i ddibenion ei ddyletswyddau swyddogol (ond nid fel arall) archwilio unrhyw ddogfen ym mediant y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor, a gofyn am gael copi i'r un pwrpas. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau neu is-bwyllgor ar gael i'w harchwilio gan gynghorwyr.
--	------	---

19. Gweithgareddau diawdurdod

	19.1	Oni chaiff ei awdurdodi gan benderfyniad, ni chaiff unrhyw gynghorydd, yn enw neu ar ran y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor: i. Archwilio unrhyw dir a/neu eiddo lle mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i archwilio, neu ii. Gyflwyno gorchmynion, cyfarwyddiadau neu gyfarwyddyd.
--	------	---

20. Busnes cyfrinachol

● ■ ▲	20.1	Ni ddylai cynghorwyr ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol neu gwybodaeth y maent yn credu sydd, neu y dylent fod yn ymwybodol sydd o natur gyfrinachol.
● ■ ▲	20.2	Gellir diswyddo cynghorydd sy'n torri darpariaethau rheol sefydlog 24(a) uchod o bwyllgor neu is-bwyllgor gan benderfyniad y Cyngor.
● ■ ▲	20.3	Adroddir am unrhyw dor-rheol o reolau sefydlog 24.1 a 24.2 dan ofynion Cod Ymddygiad y Cyngor

21. Pwerau llesiant

WEDI EI NEILLTUO nes ceir Canllawiau gan Lywodraeth Cymru

22. Materion sy'n effeithio gweithwyr y Cyngor

	22.1	Os bydd cyfarfod yn ystyried mater sy'n bersonol i weithiwr Cyngor, ni chaiff ei ystyried nes bydd y Cyngor NEU'R Pwyllgor Staffio wedi penderfynu a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod dan reol sefydlog 1.6 uchod.
	22.2	Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drin cwynion, bydd gweithiwr uchaf y Cyngor (neu weithwyr eraill) yn cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Staffio, neu yn ei absenoldeb, Is-gadeirydd y Pwyllgor Staffio mewn perthynas â chwyn anffurfiol neu ffurfiol, a bydd y mater hwn yn cael ei adrodd yn ôl a'i drin yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Staffio.
	22.3	Yn amodol ar bolisi'r Cyngor mewn perthynas â thrin cwynion a materion disgyblu, os bydd cwyn anffurfiol neu ffurfiol a godwyd gan [teitl swydd y

		gweithiwr] yn ymwneud â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Staffio, dylid adrodd am hyn i aelod arall o'r Pwyllgor Staffio, a gaiff ei adrodd yn ôl a'i drin yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Staffio.
--	--	--

23. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

● ■ ▲	23.1	Caiff pob cais am wybodaeth a ddelir gan y Cyngor ei brosesu yn unol â pholisi'r Cyngor ar drin ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
● ■ ▲	23.2	Caiff gohebiaeth gan, a hysbysiadau a gyflwynir gan y Comisiynydd Gwybodaeth eu cyfeirio gan y Swyddog Priodol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Bydd gan y pwyllgor hwnnw y pŵer i wneud unrhyw beth i hwyluso cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan gynnwys defnyddio pwerau'r Swyddog Priodol mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a bennwyd dan Reol Sefydlog 3.2(ix) uchod.

24. Cysylltiadau gyda'r Wasg / Cyfryngau

	24.1	Caiff pob cais gan y wasg neu gyfryngau eraill am ddatganiad llafar neu ysgrifenedig neu sylwadau gan y Cyngor ei brosesu yn unol â pholisi'r Cyngor ar ddelio gyda'r wasg a/neu gyfryngau eraill.
	24.2	Yn unol â pholisi'r Cyngor ar ddelio â'r wasg a/neu gyfryngau eraill, ni ddylai cynghorwyr awgrymu eu bod yn siarad ar ran y Cyngor Tref oni fo awdurdod wedi ei roddi iddynt ymlaen llaw trwy gyfrwng Penderfyniad Pwyllgor neu oherwydd ei fod yn fater brys gan Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol.

25. Cysylltu gyda Chynghorwyr Sir Ddinbych

	25.1	Dylid anfon gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, ynghyd â chopi o'r Rhaglen, i gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych sy'n cynrychioli wardiau etholiadol yn ardal weinyddol Cyngor Tref y Rhyl.
	25.2	Bydd gan Aelodau Cyngor Sir Ddinbych yr hawl i annerch y Cyngor dim ond gyda chaniatâd y Cadeirydd sy'n llywyddu'r cyfarfod.

26. Materion Ariannol


● ■ ▲	26.1	Bydd y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a luniwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, a fydd yn cynnwys trefniadau manwl mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> i. Cofnodion cyfrifo a systemau rheoli mewnol; ii. Asesu a rheoli risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor; iii. Gwaith yr Archwiliwr Mewnol a derbyn adrodiadau rheolaidd gan yr Archwiliwr Mewnol, a bydd eu hangen o leiaf bob blwyddyn; iv. Archwilio a rhoi copïau i gynghorwyr ac etholwyr lleol o gyfrifon a/neu archebion talu y Cyngor; v. Polisiâu caffael (yn amodol ar reol sefydlog 30(b) isod) gan gynnwys pennu gwerthoedd ar gyfer trefniadau gwahanol lle mae gwerth tebygol contract yn llai na £20,000.
● ■ ▲	26.2	Dylid caffael unrhyw gontract arfaethedig ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau ac ymgymryd â gwaith lle mae'r gwerth tebygol yn fwy na £20,000 ar sail tendr ffurfiol fel y crynhoir yn rheol sefydlog 30(c) isod.
	26.3	Bydd unrhyw broses dendro ffurfiol yn cynnwys y camau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> i. Hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i roddi contract mewn papur newydd lleol; ii. Dylid llunio manyleb o'r nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a'r gwaith; iii. Tendrau i'w hanfon, mewn amlen wedi ei selio a'i marcio, at y Swyddog Priodol erbyn dyddiad ac amser a bennwyd;

		<ul style="list-style-type: none"> iv. Tendrau a gyflwynwyd i'w hagog, ar ôl y dyddiad a'r amser a bennwyd, gan y Swyddog Priodol ac o leiaf un aelod o'r Cyngor; v. Tendrau yna i'w hasesu ac adrodd arnynt i gyfarfod priodol y Cyngor neu Bwyllgor.
	26.4	Nid oes yn rhaid i'r Cyngor, nac unrhyw bwyllgor, dderbyn y tendr, amcangyfrif neu ddyfynbris isaf.
	26.5	Lle mae gwerth contract yn debygol o fod dros £138,893 (neu drothwy arall a bennwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth o bryd i'w gilydd) rhaid i'r Cyngor ystyried os yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS Rhif 5, fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 (OS Rhif 6, fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol i'r contract ac, os bydd y naill Reoliadau neu'r lleill yn berthnasol, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd.

27. Amrywio, Dirymu ac Atal Rheolau Sefydlog

	27.1	Gellir atal unrhyw neu bob rhan o'r rheolau sefydlog, ac eithrio'r rhai sy'n orfodol dan y gyfraith, trwy gymryd penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes benodol.
	27.2	Ni dderbynnir cynnig i ychwanegu at neu amrywio neu ddirymu un neu fwy o reolau sefydlog y Cyngor nad ydynt yn orfodol dan y gyfraith oni fo dwy rhan o dair o'r cynghorwyr mewn cyfarfod o'r Cyngor yn pleidleisio o blaid hynny.

28. Rheolau Sefydlog i'w rhoi i'r Cynghorwyr

	28.1	Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi copi o reolau sefydlog y Cyngor i gynhgorydd pan fydd yn cyflwyno ei ddatganiad yn derbyn y swydd.
	28.2	Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar ddefnyddio rheolau sefydlog mewn cyfarfodydd yn derfynol.

ATODIAD 1 - DIFFINIADAU

Rhaglen	Yn diffino'r 'busnes i'w drafod' – dim ond eitemau a gynhwyswyd ar y Rhaglen a geir eu penderfynu yn gyfreithlon
Adroddiad Blynyddol Cyllideb Cadeirydd Pwyllgor Cadeirydd y Cyngor Cod Ymddygiad	Datganiad blynyddol o gyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio Cynllun ar gyfer incwm a gwariant dros y flwyddyn i ddod Cadeirydd y Pwyllgor Maer y Dref Cod ffurfiol a fabwysiadwyd gan y cyngor i arwain ymddygiad cynghorwyr
Corff Corfforaethol	(Fel Cyngor) mae ganddo fodolaeth cyfreithiol ar wahân i'w aelodau, gellir mynd ag ef gerbron llys ac, fel corff, mae'n gyfrifol am ei weithredoedd
Datganiad derbyn swydd Dirprwyo	Trefn ffurfiol dan yr hon y mae'r cynghorwyr yn derbyn eu swyddi Y weithred o roi pŵer i gymryd penderfyniad i swyddog, pwyllgor neu is-bwyllgor, neu gyngor arall. Rhaid i'r cyngor llawn gytuno dirprwyo yn ffurfiol. Ni ellir dirprwyo i Aelodau unigol.
Pwerau dirprwyedig	Pwerau sydd wedi eu dirprwyo gan y cyngor i bwyllgor, is-bwyllgor, cyngor arall neu swyddog (Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 101)
Rheoli datblygu Cynllun Datblygu Lleol	Yr enw ffurfiol am reoli datblygu trwy'r broses caniatâd cynllunio Rhan o'r Broses Gynllunio. Mae'n cynnwys y strategaeth ofodol ranbarthol a dogfennau cynllun a luniwyd gan yr awdurdodau cynllunio lleol
Dyletswyddau Amcangyfrif (Rheol Sefydlog 20)	Camau y mae'n rhaid i'r cyngor eu cymryd dan y gyfraith Cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod y mae'r cyngor yn ei chytuno ym mis Ionawr
Fframwaith moesol	Deddfwriaeth a chanllawiau statudol wedi eu llunio i gynnal safonau ymddygiad priodol i bobl sy'n gwasanaethu mewn llywodraeth leol
Archwiliad allanol	Archwiliwr a benodir gan y Llywodraeth sy'n archwilio'r adroddiad blynyddol (a lofnodir gan y Cadeirydd, y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r archwiliwr allanol)
Rheoli mewnol	System dan yr hon y mae'r Cyngor yn gwirio gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar amserau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn
Archwilio mewnol	Rhaid penodi archwiliwr mewnol annibynnol, cymwys gan y Cyngor i adolygu'r system o reolaeth fewnol
Awdurdod Cynllunio Lleol Ystyriaethau perthnasol Swyddog Monitro	Fel rheol, Cyngor Sir Ddinbych Materion yn y gyfraith gynllunio sy'n berthnasol i gais cynllunio Swyddog gyda Chyngor Sir Ddinbych sy'n goruchwyllo'r fframwaith moesol (Defnyddio'r Cod Ymddygiad)
Buddiannau personol	Lle gall Cynghorydd gael budd, yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl yn y gymuned, o benderfyniad gan y cyngor
Polisi Pwerau	Canllaw i weithredu, yr hyn y mae'r cyngor eisiau ei gyflawni Y pŵer a roddir gan Ddeddf Seneddol i awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau
Buddiant rhagfarnus	Daw buddiannau personol yn fuddiannau rhagfarnus os bydd aelod o'r cyhoedd (gan wybod y ffeithiau perthnasol) yn meddwl y gallai eich barn chi ar y budd cyhoeddus fod yn rhagfarnus
Gweithdrefnau Praesept	Canllawiau ar gyfer gweithredu'r cyngor plwyf o fewn y gyfraith Gorchymyn di-nâg i awdurdod bilio i dalu swm a enwyd i gyngor lleol. Yn syml, y dreth a godir gan y Cyngor Sir ar ran y Cyngor Tref fel rhan o'r dreth gyngor.
Swyddog Priodol Cworwm	Yn gyfreithiol, y swyddog sy'n briodol i'r dasg. Nifer y bobl sydd angen bod yn bresennol cyn gellir cymryd penderfyniadau. Os nad oes digon o bobl yn bresennol ystyrir nad oes cworwm i'r cyfarfod. Y cworwm yw 3 neu draean pwyllgor (pa bynnag yw'r mwyaf, oni nodwyd nifer uwch)
Cofrestr buddiannau	Cofrestr ffurfiol o fuddiannau ariannol a buddiannau penodol eraill cynghorwyr a fedr effeithio ar eu penderfyniadau fel cynghorydd. Rhaid i gynghorwyr lofnodi'r gofrestr a chaiff ei chadw gan y Swyddog Monitro.
Swyddog Ariannol Cyfrifol	Swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y cyngor. Deddf Llywodraeth Leol 1972, Swyddog adran 151. Ar gyfer Cyngor Tref y Rhyl y Swyddog Cyllid yw hwn.
Statud	Deddf Seneddol. Y gyfraith, a rhaid ei dilyn. Mae'n cynnwys rheoliadau cyfreithiol i'w cadw wrth weithredu'r gyfraith. Mae cynghorau cymuned yn gyrrff statudol; golyga hyn eu bod wedi eu

Tri diwrnod clir

sefydlu gan statudau. Mae deddfau seneddol yn rheoli gweithgareddau cynghorau cymuned Term yn y gyfraith. Nid yw'n cynnwys y diwrnod ar yr hwn yr anfonir rhaglen, na diwrnod y cyfarfod; nid yw 'chwaith yn cynnwys gwyliau banc.

ATODIAD 2 – CYLCH GORCHWYL PWYLLGORAU

PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL

1.0 Pwrpas y Pwyllgor:

Mae dau bwrpas i'r Pwyllgor

- Delio â holl faterion ariannol sydd angen penderfyniad gan Aelodau etholedig ac nad ydynt angen ystyriaeth benodol gan y Cyngor Llawn.
- Delio â'r holl faterion nad ydynt yn dod o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor arall.

2.0 Aelodaeth:

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn agored i holl Aelodau'r Cyngor.

3.0 Cworwm:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26, cworwm yr Is-bwyllgor fydd traean aelodaeth gyfan y Cyngor (7).

4.0 Pwerau Gweithredol:

Fel rheol mae holl benderfyniadau'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn amodol ar gadarnhad y Cyngor llawn.

Fodd bynnag, pan fo mater angen sylw brys mae'r Pwyllgor wedi ei awdurdodi i atal rheolau sefydlog er mwyn galluogi cymryd camau cyn cael cadarnhad gan y Cyngor.

PWYLLGOR CYNLLUNIO

1.0 Pwrpas y Pwyllgor:

Mae dau bwrpas i'r Pwyllgor

1.1 Delio â holl faterion yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio gan gynnwys

- ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau datblygu o fewn neu sy'n effeithio'r Rhyl;
- cynrychioli, trwy'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, os oes angen, yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol
- cynrychioli, trwy'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, y Cyngor ar baneli archwilio safleoedd a drefnwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

1.2.1 Ystyried ac os yn briodol gwneud sylwadau ar geisiadau Trwyddedu a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol

2.0 Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i holl Aelodau'r Cyngor ac fe gaiff ei gadarnhau yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor.

3.0 Cworum:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26, cworwm yr Is-bwyllgor fydd traean aelodaeth gyfan y Pwyllgor.

4.0 Pwerau Gweithredol:

Awdurdod dirprwyedig llawn i ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau Cynllunio a Cheisiadau Trwyddedu.

PWYLLGOR STAFFIO

1.0 Pwrpas y Pwyllgor:

Fel pob corff sector cyhoeddus a phreifat, rhaid i'r Cyngor Tref wneud trefniadau priodol i dderbyn a delio â materion staff. Yn y gorffennol, mae'r rhain wedi eu trin ar sail ad hoc trwy gyfrwng cyflwyniad i'r Pwyllgor priodol neu'n uniongyrchol i'r Cyngor.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y'i diffiniwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2012 (a gadarnhawyd gan y Cyngor ar 20fed Mehefin 2012) yw:

- Ymgymryd ag asesiad manwl o newidiadau i'r gyfraith gyflogaeth yn y dyfodol
- Delio â holl faterion staff yn y dyfodol (gan gynnwys cwynion a disgyblu)

A gwneud argymhellion i'r Cyngor.

2.0 Aelodaeth

Penodir pum Cynghorydd i fod yn aelodau'r Pwyllgor Staffio yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Oherwydd natur y Pwyllgor, dim ond aelodau sydd wedi eu penodi a gaiff fynychu.

Ni chaiff aelodau'r Pwyllgor Staffio wasanaethu ar Bwyllgor Apêl y Cyngor (pan gaiff ei benodi).

3.0 Cworwm:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26 y cworwm ar gyfer yr Is-bwyllgor fydd TRI aelod.

4.0 Pwerau Gweithredol:

Dim, ac eithrio i archwilio a gwneud argymhellion i'r Cyngor.

IS-BWYLLGOR ASESU RISG

1.0 Pwrpas yr Is-bwyllgor:

1.1 Mae'r Cyngor yn diffinio cylch gorchwyl Sicrhau yr Is-bwyllgor fel a ganlyn

- Paratoi drafft Arolwg Asesu Risg Blynyddol y Cyngor
- Ystyried materion archwilio mewnol sy'n berthnasol i'r Arolwg Asesu Risg Blynyddol
- Ystyried meysydd gwaith penodol a gyfeirir at yr Is-bwyllgor gan y Cyngor.

- Ystyried materion o bryder a gyfeirir ato gan aelodau unigol y Cyngor yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor.

1.2 Cylch Gorchwyl Cymdeithas Cymuned y Rhyl (Pwerau Dirprwyedig)

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn trafod gyda Chymdeithas Cymuned y Rhyl ar nifer o gytundebau a dogfennau cyfreithiol; nid y lleiaf o'r rhain yw Prydles y Cyngor mewn perthynas â defnyddio'r Swyddfeydd Dinesig a rheoli Canolfan Gymunedol Tynewydd.

Dirprwywyd yr Is-bwyllgor Asesu Risg i ymgymryd â'r trafodaethau hyn ar ran y Cyngor. (Cofnod Rhif 75 y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol 05.10.11 yn cyfeirio.)

2.0 Aelodaeth:

Caiff aelodaeth yr Is-bwyllgor ei phenderfynu gan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ac mae'n cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ynghyd â nifer o Aelodau.

3.0 Cworwm:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26, cworwm yr Is-bwyllgor fydd traean cyfanswm aelodaeth yr is-bwyllgor neu dri Aelod, pa bynnag un sydd fwyaf.

4.0 Pobl nad ydynt yn Aelodau

Mae Rheolau Sefydlog 2.17 a 2.18 yn berthnasol:

2.17. Caiff aelod sydd wedi cyflwyno cynnig, sydd wedi ei gyfeirio at unrhyw Bwyllgor/Is-bwyllgor nad yw'n Aelod ohono, fynychu i esbonio ei gynnig i'r Pwyllgor/is-bwyllgor, ond ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth ac ni fydd yn pleidleisio.

2.18 Bydd gan unrhyw Aelod Cyngor, oni fo'r Cyngor yn cyfeirio fel arall, hawl i fod yn bresennol yng Nghyfarfodydd unrhyw Bwyllgor [ac eithrio'r Pwyllgor Staffio] neu Is-bwyllgor nad ydynt yn aelod ohono ond ni chânt siarad (ac eithrio dan 2.17 uchod) oni fo'r Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddynt, ac ni chânt bleidleisio.

5.0 Pwerau Gweithredol:

Mewn perthynas ag 1.1 (Sicrhad) uchod, nid oes gan yr Is-bwyllgor unrhyw Bwerau Gweithredol i weithredu ac eithrio i archwilio a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

Mewn perthynas ag 1.2 (trafodaethau Cymdeithas Cymuned y Rhyl) uchod, mae gan yr Is-bwyllgor awdurdod dirprwyedig llawn i weithredu ar ran y Cyngor pan fo angen.

IS-BWYLLGOR DIGWYDDIADAU DINESIG A CHYMDEITHASOL

1.0 Pwrpas yr Is-bwyllgor:

Sefydlwyd yr Is-bwyllgor hwn o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn wreiddiol gan benderfyniad y Cyngor ar 21ain Mai 2003, "i ystyried sut y gallai'r Cyngor Tref gynorthwyo a chefnogi Swyddi'r Maer a'r Dirprwy Faer yn well".

Ers hynny, dirprwywyd i'r Is-bwyllgor amrywiaeth o orchwylion i'w cyflawni ar ran y Cyngor.

Adolygwyd y gorchwylion hyn ddiwethaf gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 5ed Chwefror 2011.

Y gorchwylion presennol yw:

Goruchwyllo trefniadau mewn ymgynghoriad â'r Maer neu'r Darpar Faer (fel y bo'n briodol) i'r Maer gynnal Derbyniad a Digwyddiadau Dinesig eraill	Pwerau Dirprwyedig
Ystyried sut gall y Cyngor gefnogi'n gyffredinol Swydd y Maer	Dim pwerau dirprwyedig

2.0 Aelodaeth:

Caiff aelodaeth yr Is-bwyllgor ei phenderfynu gan Gyfarfod Blynnyddol y Cyngor ac mae fel rheol yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ynghyd â nifer o Aelodau eraill sydd wedi bod yn Faer yn y gorffennol.

Gwaherddir y Maer a'r Dirprwy Faer presennol yn benodol rhag bod yn Aelodau.

3.0 Cworwm:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26, cworwm yr Is-bwyllgor fydd traean o gyfanswm aelodau'r is-bwyllgor neu dri Aelod, pa bynnag un yw'r mwyaf.

4.0 Pobl nad ydynt yn Aelodau:

Mae Rheolau Sefydlog 2.17 a 2.18 yn berthnasol:

2.17. *Caiff aelod sydd wedi cyflwyno cynnig, sydd wedi ei gyfeirio at unrhyw Bwyllgor/Is-bwyllgor nad yw'n Aelod ohono, fynychu i esbonio ei gynnig i'r Pwyllgor/Is-bwyllgor, ond ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth ac ni fydd yn pleidleisio.*

2.18 *Bydd gan unrhyw Aelod Cyngor, oni fo'r Cyngor yn cyfeirio fel arall, hawl i fod yn bresennol yng Nghyfarfodydd unrhyw Bwyllgor [ac eithrio'r Pwyllgor Staffio] neu Is-bwyllgor nad ydynt yn aelod ohono ond ni chânt siarad (ac eithrio dan 2.17 uchod) oni fo'r Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddynt, ac ni chânt bleidleisio.*

5.0 Pwerau Gweithredol:

Mae gan yr Is-bwyllgor awdurdod dirprwyedig i weithredu yn y materion a nodir ym mharagraff 1.0. Mewn perthynas â materion eraill, ei rôl yw archwilio a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

IS-BWYLLGOR CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

1.0 Pwrpas yr Is-bwyllgor:

Sefydlwyd Is-bwyllgor y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gan benderfyniad y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr, 2010, i

- ddatblygu Cynllun Gweithredu i sicrhau bod yr holl elfennau a bennwyd yn y Cynllun yn cael eu cyflawni (gan gynnwys goruchwyllo cyhoedduswydd ac ymgynghoriad)
- penderfynu ar yr amserlen ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu
- monitro cyflawniad y Cynllun Gweithredu

- paratoi adroddiadau monitro ffurfiol y Cyngor ar weithredu'r Cynllun i'w gymeradwyo
- gwneud trefniadau ac argymhellion ar gyfer unrhyw a phob mater ategol yn ymwneud â chyflawni'r Cynllun.

2.0 Aelodaeth:

Caiff aelodaeth yr Is-bwyllgor ei phenderfynu gan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ac mae fel rheol yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ynghyd â nifer o Aelodau.

3.0 Cworum:

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.26, cworwm yr Is-bwyllgor fydd traean o gyfanswm aelodau'r is-bwyllgor neu dri Aelod, pa bynnag un yw'r mwyaf.

4.0 Pobl nad ydynt yn Aelodau

Mae Rheolau Sefydlog 2.17 a 2.18 yn berthnasol:

2.17. Caiff aelod sydd wedi cyflwyno cynnig, sydd wedi ei gyfeirio at unrhyw Bwyllgor/Is-bwyllgor nad yw'n Aelod ohono, fynychu i esbonio ei gynnig i'r Pwyllgor/is-bwyllgor, ond ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth ac ni fydd yn pleidleisio.

2.18 Bydd gan unrhyw Aelod Cyngor, oni fo'r Cyngor yn cyfeirio fel arall, hawl i fod yn bresennol yng Nghyfarfodydd unrhyw Bwyllgor [ac eithrio'r Pwyllgor Staffio] neu Is-bwyllgor nad ydynt yn aelod ohono ond ni chânt siarad (ac eithrio dan 2.17 uchod) oni fo'r Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddynt, ac ni chânt bleidleisio.

5.0 Pwerau Gweithredol:

Mae gan yr Is-bwyllgor bwerau dirprwyedig penodol i oruchwylio gwaith paratoi a datblygu Cynllun Gweithredu'r Cyngor a'r Amserlen ar gyfer chyflawni'r Cynllun.

Mae gan yr Is-bwyllgor bwerau dirprwyedig penodol i oruchwylio paratoad Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ac yna i'w gyflwyno wedi hynny i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd gan yr Is-bwyllgor bwerau dirprwyedig i archwilio a gwneud argymhellion i'r Cyngor neu ei Bwyllgorau ar faterion yr ystyria'n berthnasol i'r Cynllun (gan bynnwys cwynion a sylwadau a dderbyniwyd).

Unrhyw faterion eraill a gaiff eu cyfeirio ato gan y Cyngor neu ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd fel y maent yn ymwneud â'r Cynllun. Yn hyn o beth, bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried unrhyw gyflwyniadau a wnaed i'r Cyngor mewn ymateb i roddi cyhoeddusrwydd i'r cynllun.

D.S. mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun ei hunan (penodi cyfieithwyr, trefniadau ar gyfer cyfieithu dogfennau, caffael offer cyfieithu ac ati), cyfrifoldeb Clerc y Dref fydd hynny.

ATODIAD 3 – DISGRIFIADAU RÔL

DISGRIFIAD RÔL AR GYFER SWYDD AELOD ETHOLEDIG

1.0 Prif Gyfrifoldebau

- I'r Cyngor Llawn
- I'r etholaeth yn eu Ward

2.0 Gwybodaeth Ofynnol

Mae gwaith a phrosesau cymryd penderfyniadau'r Cyngor yn destun nifer o ddogfennau a pholisïau. I Aelodau etholedig fod yn effeithiol yn eu rôl mae'n bwysig eu bod yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt gan y gyfraith a'r Cyngor. Dylai Aelodau felly fod â neu fod yn barod i ddatblygu dealltwriaeth gref o'r dogfennau canlynol.

- Y Cod Ymddygiad
- Rheolau Sefydlog y Cyngor
- Rheoliadau Ariannol y Cyngor
- Polisiau Cymeradwy'r Cyngor Tref
- Cynllun Strategol Cymeradwy'r Cyngor Tref 2012 - 2017
- Dogfen "Llywodraethu da mewn Cynghorau Cymuned"
- Dogfen "Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol"
- Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref y Rhyl

Lle bo angen, darperir hyfforddiant priodol ar y dogfennau penodol ac mae'n ymrwymiad i aelodaeth etholedig fynychu'r hyfforddiant hwnnw.

3.0 Pwrpas y Rôl

Cynrychioli a chefnogi'r Rhyl

- Cynrychioli Buddiannau Trigolion y Ward
- Bod yn hyrwyddwr dros y Cyngor yn y Ward a'r gymuned ehangach
- Bod yn sianel gyfathrebu rhwng y Cyngor a chymuned y Rhyl
- Cynrychioli etholwyr unigol a mudiadau lleol yn unol â pholisïau cymeradwy'r Cyngor Tref
- Hyrwyddo goddefgarwch ac ymlyniant mewn cymunedau lleol

Cymryd penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y Cyngor

- Mynychu a chymryd rhan yng Nghyfarfodydd y Cyngor, gan ddod i benderfyniadau deallus a chytbwys yn unol â Pholisïau ac amcanion y Cyngor a ddiffiniwyd ymlaen llaw
- Cymryd rhan mewn proses ddeallus a chytbwys o gymryd penderfyniadau ar Bwyllgorau/Is-bwyllgor a Gweithgorau y maent wedi eu penodi iddynt
- Glynu at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb gyfunol wrth gymryd penderfyniadau a pharchu rôl Cadeirydd y Cyfarfod

Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrrff allanol lleol pan gânt eu penodi gan y Cyngor i wneud hynny ac yn unol â pholisï'r Cyngor ar benodiadau o'r fath.

Hyfforddiant

- Mynychu pryd bynnag y bo modd sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y Cyngor i gynyddu dealltwriaeth o rôl yr aelod etholedig yn gyffredinol ac ar faterion penodol.

Llywodraethu, safonau moesol a pherthnasau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth dda y Cyngor a'i faterion
- Cefnogi a glynu at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Glynu bob amser at God Ymddygiad y Cyngor

DISGRIFIAD RÔL AR GYFER SWYDD MAER Y DREF (a'r Dirprwy Faer)

Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau bod Aelodau sydd eisiau cael eu henwebu fel Maer (a Dirprwy Faer) yn deall ac yn derbyn yr ymrwymiad sydd ei angen ac a ddisgwylir gan y Cyngor Tref.

1.0 Cyflwyniad

[Fel y cymeradwywyd gan Gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Hydref 2011]

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, yr eitem fusnes gyntaf yw penodi Maer tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf.

Swydd y Maer yw'r penodiad ffurfiol pwysicaf a wneir gan y Cyngor, ac mae dyletswyddau'r Cynghorydd a benodir i'r rôl yn cael eu llywodraethu gan gymysgedd o ofynion/ymrwymadau statudol ac anstatudol. Y Maer yw pennaeth seremonïol y Cyngor.

Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd y Dirprwy Faer, dan amgylchiadau arferol, yn cael ei ddyrchafu i swydd y Maer. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu y rhoddir hyfforddiant gorfodol i'r Maer ac y rhagwelir y bydd y Dirprwy Faer hefyd yn mynychu.

Yn y ddogfen hon, lle mae testun penodol wedi ei danlinellu, mae hyn yn nodi gofyniad statudol ar y Maer.

Mae'r Cyngor wedi awdurdodi bod lwfans yn daladwy i'r Maer a'r Dirprwy Faer i dalu costau'r swydd.

2.0 Prif Gyfrifoldebau

- I'r Cyngor Llawn

3.0 Gwybodaeth Ofynnol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r sawl a benodir, wrth ymgymryd â Swydd y Maer, feddu ar neu fod yn barod i ddatblygu dealltwriaeth gref o'r dogfennau canlynol:

- Y Cod Ymddygiad
- Rheolau Sefydlog y Cyngor
- Rheoliadau Ariannol y Cyngor
- Polisiau Presennol y Cyngor Tref
- Cynllun Strategol Cymeradwy'r Cyngor Tref 2012 - 2017
- Dogfen "Llywodraethu da mewn Cynghorau Cymuned"
- Dogfen "Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol"
- Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref y Rhyl

4.0 Cyfrifoldebau Cyffredinol

Mae gan Swydd y Maer y cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

- Llywyddu cyfarfodydd y Cyngor, fel bod ei fusnes yn cael ei gyflawni'n effeithiol yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a phenderfynu ar ddehongli'r Rheolau Sefydlog yn ystod cyfarfodydd y Cyngor
- Derbyn hysbysiadau o ymddiswyddiad gan Gynghorwyr neu Swyddogion ar ran y Cyngor
- Yn amodol ar roddi rhybudd priodol, galw cyfarfodydd arbennig/eithriadol y Cyngor Tref.
- Llofnodi dogfennau ar ran y Cyngor pan gaiff ei awdurdodi i wneud hynny / pan fo angen.
- Cymryd y cyfrifoldeb o fod yn wyneb cyhoeddus y Cyngor Tref, trwy fynychu / gynnal digwyddiadau dinesig, ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau a rhoi arweiniad cymunedol.

[Wrth ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau, dylai Maer y Dref geisio rhoi ymatebion sy'n gadarnhaol i ddelwedd y Dref, dylent fod yn amhleidiol a rhaid ymgynghori â Chlerc y Dref ar faterion cyn rhoi datganiad]

[Mewn blynyddoedd diweddar, mae Maer y Dref wedi mynychu rhwng 140 – 190 o ddigwyddiadau y flwyddyn]

- ei awdurdodi i roddi gwahoddiad i fudiadau cymunedol lleol ymweld â Siambr y Cyngor a chynnal digwyddiadau gyda'r pwrpas o gynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor Tref.

[Rhagwelir y bydd y costau a achosir oherwydd gwahoddiadau o'r fath fel rheol yn cael eu talu o Lwfans y Maer. Dan amgylchiadau eithriadol ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor cyn rhoddi gwahoddiad, gall y Cyngor dalu'r costau, ac felly bydd angen awdurdod gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol].

5.0 Rheoli Cyfarfodydd

Yn ei swydd fel Maer, mae'r Cynghorydd a benodir hefyd yn Gadeirydd y Cyngor Tref. Fel Cadeirydd y Cyngor, rhaid i'r Maer gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol sydd ynghlwm â'r swydd a'r ymrwymadau ychwanegol y mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu sydd eu hangen hefyd.

- Gweithredu mewn dull amhleidiol / anwleidyddol gan ganolbwyntio ar reoli'r cyfarfod yn hytrach na chymryd rhan fel Aelod.

[Mae hyn yn rhagdybio y dylai'r Aelod (wrth weithredu fel Maer) fod yn "wleidyddol niwtral" ac ni ddylai ymgyrchu'n weithgar ar unrhyw fater oni fo'r Cyngor wedi ei gyfarwyddo i wneud hynny, gan mai ei rôl yw nid cael canlyniad penodol ond, yn bwysicach, sicrhau bod y Cyngor wedi cymryd penderfyniad "da"]

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen i Gadeirydd y Cyngor, cyn cyfarfodydd y Cyngor, fynychu cyfarfod ymlaen llaw gyda Chlerc y Dref er mwyn cael gwybod am fanylion cefndir eitemau ar y Rhaglen sy'n cael eu hadrodd er ystyriaeth ac i fod mewn sefyllfa i wneud sylwadau i'r cyfarfod os oes angen ar effaith ehangach yr eitem ar y Cyngor.
 - Os yw'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, rhaid i'r Maer lywyddu a rheoli'r broses o orfodi trefn dda yn y cyfarfod.
 - Rhaid i'r Maer rwystro penderfyniadau rhag cael eu cymryd ar faterion nad ydynt ar y Rhaglen a'u cyfleu i'r aelodaeth ehangach.
 - Sicrhau glynu at Reolau Sefydlog y Cyngor.
 - Sicrhau nad yw siaradwyr unigol yn monopoleiddio'r drafodaeth a bod unrhyw Aelodau llai hyderus yn cael eu hannog i gymryd rhan.
 - Sicrhau nad oes neb yn torri ar draws yr aelodau hynny sy'n siarad (yn fwriadol neu'n anfwriadol) ac nad ydynt yn cael eu heclo.
 - Bod siaradwyr yn cyfeirio eu sylwadau at gadeirydd y cyfarfod ac nid at Gyngorwyr eraill neu Siaradwyr Gwadd.
 - Bod siaradwyr yn cyfrannu tuag at y drafodaeth ac nid yn ailadrodd sylwadau gan aelodau eraill.
 - Sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle teg i gymryd rhan yn y drafodaeth (gall hyn fod mor syml â sicrhau nad yr un aelod yw'r Aelod cyntaf i siarad bob amser).
 - Er efallai bod gan Aelod wybodaeth am fater oherwydd rôl neu benodiad arall, sicrhau eu bod yn siarad fel Cyngorwyr Tref yn unig ... oni fyddant eisieu gwneud eu sefyllfa yn glir ac yna'n cael eu gwahodd gan y Cyngor/Bwyllgor i roddi gwybodaeth bellach.
 - Gorfodi trefn barchus yn y cyfarfod tuag at y Cadeirydd, Aelodau eraill, siaradwyr a gwesteion a deall y drefn sydd ar gael er mwyn ymateb i ddigwyddiadau afreolus.
 - Sicrhau bod Siaradwyr Gwadd yn glynu at y cyflwyniadau a roddir i'r Cyngor.
 - Wrth lywyddu cyfarfod, mae gan y Maer ail bleidlais neu bleidlais fwrw oni fo'r Maer yn llywyddu dros etholiad Maer newydd cyn ymddeol o'r Cyngor. Mewn achos o'r fath, dim ond pleidlais fwrw fydd gan y Maer.
- [Wrth ddefnyddio'r Bleidlais Fwrw, mae confensiwn, ac eithrio wrth bleidleisio ar benodiadau ac er mwyn cynnal amhleidioldeb y Gadair, y dylid defnyddio'r bleidlais fwrw yn y fath fodd fel ei fod yn gadael y mater dan sylw yn agored i'w ailystyried yn y dyfodol]*
- Llofnodi Cofnodion y Cyfarfodydd y mae wedi eu llywyddu.

6.0 Rôl yn ystod Egwyl y Cyngor

Yn ystod cyfnodau penodol, mae gofyn i'r Cyngor gael egwyl, gyda'r adeg mwyaf amlwg yn ystod mis Awst. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

CADEIRYDD (ac Is-gadeirydd) Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL

Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau bod Aelodau sydd eisiau cael eu henwebu fel Cadeirydd/Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn deall ac yn derbyn yr ymrwymiad sydd ei angen ac a ddisgwylir gan y Cyngor Tref.

1.0 Cyflwyniad

Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yw prif Bwyllgor y Cyngor Tref. Mae'n gyfrifol am reoli'r Cyngor o ddydd i ddydd, fel rheol yn delio gyda holl faterion ariannol a phethau sydd angen trafodaeth. Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol fel rheol yn destun cadarnhad gan gyfarfod y Cyngor wedi hynny.

Yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor, caiff Cadeirydd (ac Is-gadeirydd) y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol eu penodi tan y Cyfarfod Blyneddol nesaf.

Mae rôl y Cadeirydd yn cael ei llywodraethu gan gymysgedd o ofynion/ymrwymiadau statudol ac anstatudol.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod hyfforddiant gorfodol i'w ddarparu i Gadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog, a rhagwelir y bydd yr Is-gadeiryddion hefyd yn mynychu.

Lle mae testun penodol wedi ei danlinellu, mae hyn yn nodi gofyniad statudol ar y Cadeirydd.

2.0 Prif Gyfrifoldebau

- Fel sy'n ofynnol gan Statud
- Fel sy'n ofynnol gan Bolisi'r Cyngor
- I'r Cyngor Llawn
- I Aelodau'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
- I Aelodau unrhyw a phob un o'r Is-bwyllgorau a benodir gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

3.0 Gwybodaeth Ofynnol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r sawl a benodir, wrth ymgymryd â Swydd Cadeirydd, feddu ar neu fod yn barod i ddatblygu dealltwriaeth gref o'r dogfennau canlynol.

- Y Cod Ymddygiad
- Rheolau Sefydlog y Cyngor
- Rheoliau Sefydlog Ariannol a Chontract y Cyngor
- Rheoliadau Ariannol y Cyngor
- Polisiâu Presennol y Cyngor Tref
- Cynllun Strategol Cymeradwy'r Cyngor Tref 2012 - 2017
- Dogfen "Llywodraethu da mewn Cynghorau Cymuned"
- Dogfen "Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol"
- Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref y Rhyl

4.0 Cyfrifoldebau Cyffredinol

Mae gan y Cadeiryddion y cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

- Llywyddu cyfarfodydd Pwyllgorau perthnasol, er mwyn medru ymgymryd â'u busnes yn effeithiol yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a phenderfynu ar ddehongli'r Rheolau Sefydlog yn ystod cyfarfodydd y Cyngor
- Yn amodol ar roddi rhybudd priodol, galw cyfarfodydd arbennig/eithriadol y Pwyllgor Sefydlog
- Llofnodi dogfennau ar ran y Cyngor pan gaiff ei awdurdodi i wneud hynny / pan fo angen.
- Cymryd y cyfrifoldeb o fod yn wyneb cyhoeddus y Cyngor Tref, trwy fynychu / cynnal digwyddiadau dinesig, ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau a rhoi arweiniad cymunedol.

[Wrth ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau, dylai'r Cadeirdd geisio rhoi ymatebion sy'n gadarnhaol i ddelwedd y Dref, dylent fod yn amhleidiol/anwleidyddol a rhaid ymgynghori â Chlerc y Dref ar faterion cyn rhoi datganiad]

- Bod yn Aelod a Chadeirydd holl Is-bwyllgorau a benodir gan y Pwyllgor Sefydlog.

5.0 Materion sy'n benodol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

I gydnabod y rôl bwysig mewn perthynas â Chyllid y Cyngor, bydd gofyn i'r Cadeirydd sicrhau ei hun bod yr wybodaeth ofynnol ganddo mewn perthynas â'r gweithdrefnau cyfrifon statudol sy'n debygol o ofyn am fynychu sesiynau hyfforddi ar gyfer gofynion deddfwriaethol presennol a newydd.

5.1 Is-bwyllgorau

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, mae'r sawl a benodir hefyd yn Aelod a Chadeirydd yr Is-bwyllgorau canlynol.

- Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol
- Is-bwyllgor Asesu Risg
- Is-bwyllgor Cynllun yr Iaith Gymraeg
- Is-bwyllgorau / Gweithgorau eraill a gaiff eu penodi o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

Ym mhob achos bydd angen i'r Aelod, fel Cadeirydd, ymgyfarwyddo â nifer o bolisiâu/dogfennau'r Cyngor Tref a gofynion statudol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr Is-bwyllgor/Weithgor.

Efallai hefyd y bydd gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno argymhellion/adroddiadau a benderfynwyd gan yr Is-bwyllgor(au) / Gweithgor(au) y maent yn Gadeirydd arnynt i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

5.2 Llywodraethu'r Cyngor

Bydd angen hefyd i'r Cadeirydd dderbyn dyletswyddau penodol mewn perthynas â llywodraethu'r Cyngor fel y nodir yn Rheoliadau Ariannol/Rheolau Sefydlog Contract y Cyngor, a chan ymwneud yn benodol gyda:

Sicrhau

Angen monitro gohebiaeth yn fanylach nag aelodaeth gyffredinol y Cyngor trwy, er enghraifft, archwilio cofrestr gohebiaeth a dderbynnir a samlo llythyrau ac ebstiau ac ati.

Angen ymgymryd ag archwiliad rheolaidd o Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth a lle bo angen, awdurdodi hawliadau/taliadau.

Angen monitro hawliau swyddogion i Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl (TOIL) a Gwyliau Blynyddol.

Yn ei swydd fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg (ac yn unol â pholisi'r Cyngor) bod yn gyfrifol am dderbyn a phenderfynu ar unrhyw fater o bryder a godir gan Gyngorydd arall mewn perthynas â sicrhad sydd ei angen dan Adroddiad Blynyddol y Cyngor.

Cael ei awdurdodi yn ei swydd fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg i gomisiynu'r Archwiliwr Mewnol/Allanol i godi unrhyw fater o bryder os oes angen mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn unol â'r Polisi a gymeradwywyd eisoes (Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol Ionawr 2010).

Rheolau Sefydlog Contractau

- Agor Tendrau
- Derbyn Tendrau

Rheoliadau Ariannol

- Asesu Risg: Protocol Sicrhau ar gyfer Aelodau'r Cyngor Tref
- Angen monitro taliadau a wnaed gan y Cyngor yn llawer manylach nag aelodaeth gyffredinol y Cyngor trwy archwilio talebau talu, datganiadau banc, BACS, taliadau Cardiau Credyd ac ati a bod yn barod i ymateb i gwestiynau gan Aelodau mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Bydd hyn yn helpu rhoi sicrhad i'r aelodaeth eangach bod arian sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn cael ei archwilio'n iawn.
- Pan fo angen, cyfarfod â Swyddogion allanol y Cyngor (Swyddog Monitro, Archwiliwr Mewnol ac Allanol) a llofnodi dogfennau ar ran y Cyngor.

6.0 Rheoli Cyfarfodydd

Fel Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog, rhaid i'r Aelod gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol sydd ynghlwm â'r swydd a'r ymrwymadau ychwanegol y mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu sydd eu hangen hefyd.

- Gweithredu mewn dull amhleidiol gan ganolbwyntio ar reoli'r cyfarfod yn hytrach na chymryd rhan fel Aelod.

[Mae hyn yn rhagdybio y dylai'r Aelod (wrth weithredu fel Cadeirydd) fod yn "wleidyddol niwtral" ac ni ddylai ymgyrchu'n weithgar ar unrhyw fater oni fo'r Cyngor wedi ei gyfarwyddo i wneud hynny, gan mai ei rôl yw nid cael canlyniad penodol ond, yn bwysicach, sicrhau bod y Cyngor wedi cymryd penderfyniad "da"]

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen i'r Cadeirydd, cyn cyfarfodydd y Pwyllgor, fynychu cyfarfod ymlaen llaw gyda Chlerc y Dref er mwyn cael gwybod am fanylion cefndir eitemau ar y Rhaglen sy'n cael eu hadrodd er ystyriaeth ac i fod mewn sefyllfa i wneud sylwadau i'r cyfarfod os oes angen ar effaith ehangach yr eitem ar y Cyngor.

- Os yw'n bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, rhaid i'r Cadeirydd lywyddu a rheoli'r broses o orfodi trefn dda yn y cyfarfod.

- Rhaid i'r Cadeirydd rwystro penderfyniadau rhag cael eu cymryd ar faterion nad ydynt ar y Rhaglen a'u cyfleu i'r aelodaeth ehangach.

- Sicrhau glynu at Reolau Sefydlog y Cyngor.

- Sicrhau nad yw siaradwyr unigol yn monopoleiddio'r drafodaeth a bod unrhyw Aelodau llai hyderus yn cael eu hannog i gymryd rhan.

- Sicrhau nad oes neb yn torri ar draws yr aelodau hynny sy'n siarad (yn fwriadol neu'n anfwriadol) ac nad ydynt yn cael eu heclo.
- Bod siaradwyr yn cyfeirio eu sylwadau at y gadair ac nid at Gynghorwyr eraill neu Siaradwyr Gwadd.

- Bod siaradwyr yn cyfrannu tuag at y drafodaeth ac nid yn ailadrodd sylwadau gan aelodau eraill.

- Sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle teg i gymryd rhan yn y drafodaeth (gall hyn fod mor syml â sicrhau nad yr un aelod yw'r Aelod cyntaf i siarad bob amser).

- Er efallai bod gan Aelod wybodaeth am fater oherwydd rôl neu benodiad arall, sicrhau eu bod yn siarad fel Cynghorydd Tref yn unig ... oni fyddant eisiau gwneud eu sefyllfa yn glir ac yna'n cael eu gwahodd gan y Cyngor/Bwyllgor i roddi gwybodaeth bellach.

- Gorfodi trefn barchus yn y cyfarfod tuag at y Cadeirydd, Aelodau eraill, siaradwyr a gwesteion a deall y drefn sydd ar gael er mwyn ymateb i ddigwyddiadau afreolus.

- Sicrhau bod Siaradwyr Gwadd yn glynu at y cyflwyniadau a roddir i'r Cyngor.

- Wrth lywyddu cyfarfod, mae gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

[Wrth ddefnyddio'r Bleidlais Fwrw, mae confensiwn, ac eithrio wrth bleidleisio ar benodiadau ac er mwyn cynnal amhleidioldeb y Gadair, y dylid defnyddio'r bleidlais fwrw yn y fath fodd fel ei fod yn gadael y mater dan sylw yn agored i'w ailystyried yn y dyfodol]

- Llofnodi Cofnodion y Cyfarfodydd y mae wedi eu llywyddu.

7.0 Rôl yn ystod Egwyl y Cyngor

Yn ystod cyfnodau penodol, mae gofyn i'r Cyngor gael egwyl, gyda'r adeg mwyaf amlwg yn ystod mis Awst. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau bod Aelodau sydd eisiau cael eu henwebu fel Cadeirydd (neu Is-gadeirydd) y Pwyllgor Cynllunio yn deall ac yn derbyn yr ymrwymiad sydd ei angen ac a ddisgwylir gan y Cyngor Tref.

1.0 Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Cynllunio awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i ymateb i geisiadau i ymgynghori ar geisiadau datblygu a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Sir Ddinbych).

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, caiff Cadeirydd (ac Is-gadeirydd) y Pwyllgor Cynllunio eu penodi tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf.

Mae rôl y Cadeirydd yn cael ei llywodraethu gan gymysgedd o ofynion/ymrwymiadau statudol ac anstatudol.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod hyfforddiant gorfodol i'w ddarparu i Gadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog, a rhagwelir y bydd yr Is-gadeiryddion hefyd yn mynychu.

Lle mae testun penodol wedi ei danlinellu, mae hyn yn nodi gofyniad statudol ar y Cadeirydd.

2.0 Prif Gyfrifoldebau

- Fel sy'n ofynnol gan Statud
- Fel sy'n ofynnol gan Bolisi'r Cyngor
- I'r Cyngor Llawn
- I Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio
- I Aelodau unrhyw a phob un o'r Is-bwyllgorau a benodir gan y Pwyllgor Cynllunio

3.0 Gwybodaeth Ofynnol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu, wrth ymgymryd â Swydd Cadeirydd, y dylai'r sawl a benodwyd feddu ar neu fod yn barod i ddatblygu dealltwriaeth gref o'r dogfennau canlynol.

- Y Cod Ymddygiad
- Rheolau Sefydlog y Cyngor
- Cynllun Strategol Cymeradwy'r Cyngor Tref 2012 - 2017
- Polisiau Presennol y Cyngor Tref
- Dogfen "Llywodraethu da mewn Cynghorau Cymuned"
- Dogfen "Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol"
- Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref y Rhyl
- Polisiau perthnasol a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol

4.0 Cyfrifoldebau Cyffredinol

Mae gan y Cadeiryddion y cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

- Llywyddu cyfarfodydd Pwyllgorau perthnasol, er mwyn medru ymgymryd â'u busnes yn effeithiol yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a phenderfynu ar ddehongli'r Rheolau Sefydlog yn ystod cyfarfodydd y Cyngor.
- Yn amodol ar roddi rhybudd priodol, galw cyfarfodydd arbennig/eithriadol y Pwyllgor Sefydlog

- Llofnodi dogfennau ar ran y Cyngor pan gaiff ei awdurdodi i wneud hynny / pan fo angen.
- Cymryd y cyfrifoldeb o fod yn wyneb cyhoeddus y Cyngor Tref, trwy fynychu / cynnal digwyddiadau dinesig, ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau a rhoi arweiniad cymunedol.

[Wrth ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau, dylai'r Cadeirydd geisio rhoi ymatebion sy'n gadarnhaol i ddelwedd y Dref, dylent fod yn amhleidiol/anwleidyddol a rhaid ymgynghori â Chlerc y Dref ar faterion cyn rhoi datganiad]

- Bod yn Aelod a Chadeirydd holl Is-bwyllgorau a benodir gan y Pwyllgor Sefydlog.

5.0 Materion sy'n Benodol i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

I gydnabod y rôl bwysig o ran gwneud argymhellion ar geisiadau cynllunio, bydd gofyn i'r Cadeirydd sicrhau ei hunan bod ganddo'r wybodaeth ofynnol mewn perthynas â'r cynlluniau datblygu lleol statudol amrywiol a bydd angen mynychu sesiynau hyfforddi a drefnir gan Gyngor Sir Ddinbych.

5.1 Is-bwyllgorau

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, mae'r sawl a benodir hefyd yn Aelod o unrhyw Is-bwyllgor/Weithgor a sefydlir.

Ym mhob achos, bydd angen i'r Aelod, fel Cadeirydd, ymgyswrtu â nifer o bolisiau/ddogfennau'r Cyngor Tref a gofynion statudol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr Is-bwyllgor/Weithgor.

Efallai hefyd y bydd angen i'r Cadeirydd gyflwyno argymhellion/adroddiadau a benderfynir gan yr Is-bwyllgor(au)/Weithgor(au) y maent yn Gadeirydd arnynt i'r prif Bwyllgor.

5.2 Paneli Archwilio Safle

O bryd i'w gilydd, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn trefnu panel archwilio safle i ystyried cais penodol. Rôl y Cadeirydd fydd mynychu'r cyfarfodydd hynny a chynrychioli barn y Pwyllgor Cynllunio (na fydd, efallai, yn cytuno â'u barn hwy eu hunain).

5.3 Gwrandawiadau Apêl/Ymholiadau Cynllunio

Ar adegau, cynhelir Apêl ar ffurf Gwrandawriad neu Ymholiad. Rôl y Cadeirydd fydd cynrychioli barn y Pwyllgor Cynllunio pan fo angen.

5.4 Mynychu Cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych

Ar adegau bydd y Pwyllgor Cynllunio eisiau cael ei gynrychioli a siarad ar gais penodol yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Mewn achos o'r fath, fel rheol Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fydd yn cynrychioli'r Cyngor Tref.

6.0 Rheoli Cyfarfodydd

Fel Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog/Is-bwyllgor, rhaid i'r Aelod gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol sydd ynghlwm â'r swydd a'r ymrwymïadau ychwanegol y mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu sydd eu hangen hefyd.

- Gweithredu mewn dull amhleidiol/anwleidyddol gan ganolbwyntio ar reoli'r cyfarfod yn hytrach na chymryd rhan fel Aelod.

[Mae hyn yn rhagdybio y dylai'r Aelod (wrth weithredu fel Cadeirydd) fod yn "wleidyddol niwtral" ac ni ddylai ymgyrchu'n weithgar ar unrhyw fater oni fo'r Cyngor wedi ei gyfarwyddo i wneud hynny, gan mai ei rôl yw nid cael canlyniad penodol ond, yn bwysicach, sicrhau bod y Cyngor wedi cymryd penderfyniad "da"]

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen i'r Cadeirydd, cyn cyfarfodydd y Pwyllgor, fynychu cyfarfod ymlaen llaw gyda Chlerc y Dref er mwyn cael gwybod am fanylion cefndir eitemau ar y Rhaglen sy'n cael eu hadrodd er ystyriaeth ac i fod mewn sefyllfa i wneud sylwadau i'r cyfarfod os oes angen ar effaith ehangach yr eitem ar y Cyngor.
- Os yw'n bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, rhaid i'r Cadeirydd lywyddu a rheoli'r broses o orfodi trefn dda yn y cyfarfod.
- Rhaid i'r Cadeirydd rwystro penderfyniadau rhag cael eu cymryd ar faterion nad ydynt ar y Rhaglen a'u cyfleu i'r aelodaeth ehangach.
- Sicrhau glynu at Reolau Sefydlog y Cyngor.
- Sicrhau nad yw siaradwyr unigol yn monopoleiddio'r drafodaeth a bod unrhyw Aelodau llai hyderus yn cael eu hannog i gymryd rhan.
- Sicrhau nad oes neb yn torri ar draws yr aelodau hynny sy'n siarad (yn fwriadol neu'n anfwriadol) ac nad ydynt yn cael eu heclo.
- Bod siaradwyr yn cyfeirio eu sylwadau at y gadair ac nid at Gynghorwyr eraill neu Siaradwyr Gwadd.
- Bod siaradwyr yn cyfrannu tuag at y drafodaeth ac nid yn ailadrodd sylwadau gan aelodau eraill.
- Sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle teg i gymryd rhan yn y drafodaeth (gall hyn fod mor syml â sicrhau nad yr un aelod yw'r Aelod cyntaf i siarad bob amser).
- Er efallai bod gan Aelod wybodaeth am fater oherwydd rôl neu benodiad arall, sicrhau eu bod yn siarad fel Cynghorydd Tref yn unig ... oni fyddant eisïau gwneud eu sefyllfa yn glir ac yna'n cael eu gwahodd gan y Cyngor/Bwyllgor i roddi gwybodaeth bellach.
- Gorfodi trefn barchus yn y cyfarfod tuag at y Cadeirydd, Aelodau eraill, siaradwyr a gwesteion a deall y drefn sydd ar gael er mwyn ymateb i ddigwyddiadau afreolus.
- Sicrhau bod Siaradwyr Gwadd yn glynu at y cyflwyniadau a roddir i'r Cyngor.
- Wrth lywyddu cyfarfod, mae gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

[Wrth ddefnyddio'r Bleidlais Fwrw, mae confensiwn, ac eithrio wrth bleidleisio ar benodiadau ac er mwyn cynnal amhleidioldeb y Gadair, y dylid defnyddio'r bleidlais fwrw yn y fath fodd fel ei fod yn gadael y mater dan sylw yn agored i'w ailystyried yn y dyfodol]

- Llofnodi Cofnodion y Cyfarfodydd y mae wedi eu llywyddu.

7.0 Rôl yn ystod Egwyl y Cyngor

Yn ystod cyfnodau penodol, mae gofyn i'r Cyngor gael egwyl, gyda'r adeg mwyaf amlwg yn ystod mis Awst. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

CYNYRCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

1.0 Cyflwyniad:

Am lawer o flynyddoedd, mae'r Cyngor Tref wedi penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol. Yn unol â gofynion statudol, mae'n arferol penodi'r cynrychiolwyr (neu eu hail-benodi) yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor bob blwyddyn.

Ar gyfer blwyddyn ddinesig 2013/14 bydd y Cyngor Tref efallai'n penodi mwy na 40 o gynrychiolwyr i ryw 20 corff.

Ar ôl cyngor gan Archwiliwr Mewnol y Cyngor, cymeradwyodd cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Mai 2010 argymhellion yr Is-bwyllgor Asesu Risg i gyflwyno'r Polisi hwn i lywodraethu penodiadau o'r fath.

Cyflwynwyd y Polisi gan y Cyngor am y prif resymau canlynol:

- wrth benodi cynrychiolydd i gorff allanol, byddai'r Cyngor yn cael ei weld yn cymeradwyo nodau, amcanion a dyheadau'r corff hwnnw. Roedd felly'n hanfodol bod y Cyngor yn deall pam roedd yn chwarae rhan yng ngwaith y corff arbennig hwnnw ac y dylai holi'n fanylach ynglŷn ag amcanion, cyfansoddiad, trefn lywodraethu ac aelodaeth ac ati, ynghyd â chymhelliad y naill ochr a'r llall dros fod eisiau cynrychiolaeth cyn gwneud y penodiad.
- sicrhau bod cyfranogiad y Cyngor yn gyfyngedig er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai'r Cyngor yn ddiarwybod yn dod yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd yn perthyn i'r corff allanol. (Roedd yr Archwiliwr Mewnol wedi canfod Cyngor arall a oedd wedi darganfod ei hun yn cael ei dargedu am atebolrwydd ariannol ar ôl i gorff yr oedd wedi ei gynrychioli arno chwalu).

Er mwyn cyflawni'r uchod, mae'r Polisi hwn nawr yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl cael gwahoddiad i benodi cynrychiolwyr i gorff newydd, bod y Cyngor, cyn cymryd unrhyw benderfyniad, yn ceisio dilyn arweiniad y Comisiwn Archwilio ar Waith Partneriaeth Effeithiol.

Mewn perthynas â chyrrff presennol y mae'r Cyngor wedi penodi cynrychiolwyr iddynt cyn cyflwyno'r Polisi hwn, mae'r Is-bwyllgor Asesu Risg wedi ymgymryd ag arolwg cynhwysfawr o'r Penodiadau hynny ac wedi cadarnhau bod y gynrychiolaeth yn dal yn briodol ar hyn o bryd.

Rhaid i'r Aelod a benodir fod yn barod i ymgymryd ag unrhyw archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol / Amddiffyn Plant sydd eu hangen gan y corff.

2.0 Rôl Cynrychiolwyr

Dan y Polisi hwn, mae'r Aelodau a benodir, wrth weithredu fel Cynrychiolwyr y Cyngor, yn cynrychioli barn y Cyngor Tref cyfan (ac o ganlyniad yr etholwyr yn y Dref). Rhaid rhoi barn bersonol y Cynghorydd a benodir, a barn ward benodol yr Aelod, o'r neilltu o blaid barn gyfunol y Cyngor. (Os bydd Cynrychiolydd yn mynegi barn bersonol yn ystod cyfarfod y corff allanol rhaid iddo ei gwneud yn glir i'r cyfarfod mai ei farn bersonol ydyw yn hytrach na barn y Cyngor Tref a dylai'r Cynrychiolydd sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi yng Nghofnodion y Cyfarfod.)

Os bydd achos yn codi yn ystod cyfarfod y corff allanol pan nad yw'r Cynrychiolydd yn siŵr beth fyddai barn y Cyngor Tref ar fater penodol, yna dylai'r cynrychiolydd ofyn am gael gohirio'r mater i alluogi i'r Aelod ganfod barn y Cyngor, neu os nad yw hyn yn bosibl, dylai wrthod rhoi barn o gwbl ar y mater a gofyn bod ymataliad yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

Fel rheol bydd holl faterion i'w trafod wedi eu dangos ar y Rhaglen a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod ac anogir yr Aelodau i ofyn am gyngor Clerc y Dref cyn y cyfarfod os nad ydynt yn sicr o'r farn y dylent ei mynegi ar fater penodol.

Ni ddylai'r cynrychiolydd ar unrhyw achlysur roddi'r farn y bydd y Cyngor Tref yn cefnogi/gwrthwynebu camau penodol oni fo'r Cyngor Tref eisoes wedi cymeradwyo'r farn honno mewn cyfarfod o'r Cyngor Tref, gyda'r farn yn cael ei chofnodi yng Nghofnodion y Cyngor Tref.

3.0 Cynllun Strategol Cyngor Tref y Rhyl 2012 - 2017

Ar ôl mabwysiadu Cynllun Strategol y Cyngor, mae gofyn nawr i gynrychiolwyr hyrwyddo nodau ac amcanion y Cyngor wrth fynychu cyfarfodydd cyrrff allanol.

4.0 Cyfngiad y Rôl

Rhaid i gynrychiolwyr werthfawrogi a deall cyfngiad eu rôl. Ni ddylent ddod yn Aelod o'r corff ac ni ddylent dderbyn swyddi (megis Cadeirydd neu Ysgrifennydd) na swyddi rheoli. Er ei bod yn hollol iawn i gynrychiolwyr fynegi barn y Cyngor Tref ar faterion sy'n effeithio gweithrediad y corff, ni ddylent bleidleisio.

5.0 Aelodau Dirprwyol

Mae cynrychiolwyr a benodwyd yn gyfrifol am hysbysu dirprwyon os na fedrent fynychu cyfarfod. Ni ddylai Aelodau Dirprwyol fynychu cyfarfodydd oni fo'r Cynrychiolwyr a benodwyd wedi gofyn iddynt wneud hynny, neu oni fo'r Cyfarfod fel rheol yn agored i'r cyhoedd yn ehangach. Pan fydd y prif gynrychiolydd yn bresennol, ni ddylai'r Dirprwy roddi'r argraff eu bod yn gweithredu ar ran y Cyngor.

6.0 Adrodd yn ôl i'r Cyngor

Nid oes yn rhaid i gynrychiolwyr a benodwyd adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref bob tro y maent yn mynychu cyfarfod. Fodd bynnag, os oes mater yn codi mewn cyfarfod sydd angen ei ddwyn i sylw'r Cyngor Tref, dylent ofyn i Glerc y Dref ddodi eitem gan Aelod ar y Rhaglen briodol nesaf. Mater i'r Cynrychiolydd fydd dweud os oes angen i'r eitem fod yn gyfrinachol neu'n agored. Gall yr Aelod yna adrodd ar yr eitem i'r Cyngor. Bydd angen i'r Aelod adrodd yn ôl a gofyn am gyfarwyddyd a/neu awdurdod i weithredu ar rywbeth sydd y tu hwnt i'w gylch gorchwyl fel cynrychiolydd a benodwyd.

7.0 Llythyrau Penodiad

Mae'r Polisi hwn yn gofyn bod llythyr yn cael ei anfon bob blwyddyn at bob corff yn cadarnhau penodiad cynrychiolwyr a enwyd ac ar ba sail y'u penodwyd.

Mae'r Polisi hwn hefyd yn gofyn bod llythyr yn cael ei anfon bob blwyddyn at bob cynrychiolydd a benodwyd yn eu hysbysu hwy ar ba sail y cawsant eu penodi gan y Cyngor.

8.0 Copïau o Bapurau ac ati

Dan y Polisi hwn, mae'n amod penodiad bod pob corff yn darparu copi ychwanegol o'r papurau a ddosbarthwyd ar gyfer cyfarfodydd i'r Cyngor. Mae'n bwysig bod y Cyngor Tref yn derbyn y copïau hyn am nifer o resymau, sef:

- Ar achlysur, rhaid i gynrychiolwyr ymddiswyddo o'u penodiad oherwydd buddiannau yn gwrthdaro neu ymrwymadau eraill. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n fuddiol bod y Cyngor Tref yn medru rhoi cefndir y corff i'r cynrychiolydd sy'n cymryd ei le, trwy roddi copïau o'r Rhaglenni, Cofnodion ac adroddiadau diweddar iddynt.
- Mae'r copïau yn ffynhonnell gyfeirio i holl Aelodau'r Cyngor Tref i ymgyfarwyddo â chyrrff sy'n gweithredu yn eu Wardiau hwy.
- Anghymhwysio dan y Rheol Chwe Mis: lle mae Aelod yn methu â mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref am chwe mis calendr olynol, byddant fel rheol yn cael eu hanghymhwysio yn awtomatig o'u swydd fel Cynghorydd. Un eithriad i'r anghymhwysiad fodd bynnag fyddai pe byddent, yn y cyfnod o chwe mis, yn mynychu cyfarfod corff allanol y maent wedi eu penodi'n ffurfiol iddo fel cynrychiolydd y Cyngor. Byddai felly'n bwysig bod gan y Cyngor Tref gofnodion (ar ffurf cofnodion ffurfiol) bod y cynrychiolydd wedi mynychu'r cyfarfodydd.

9.0 Aelodau Eraill yn Mynychu Cyfarfodydd

Mae'r Polisi yn cydnabod nad yw'n anarferol i Gyngorwyr Tref eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyrrff allanol (naill ai'n cynrychioli cyrrff eraill neu yno'n bersonol). Dim ond y Cynghorydd Tref sy'n Gynrychiolydd (neu eu Dirprwy) sydd ag awdurdod i gynrychioli barn y Cyngor.

10.0 Cynrychioli mwy nag un corff

Unwaith y bydd wedi ei benodi gan y Cyngor Tref, rhaid i'r Aelod gytuno peidio â chynrychioli unrhyw gorff arall ar yr un corff allanol ac ni ddylent ddefnyddio eu presenoldeb i gael gwybodaeth ar gyfer cyrrff trydydd parti.

11.0 Pleidleisio yn y Cyngor Tref a Datgan Buddiannau

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r angen i ddatgan eu penodiad(au) fel cynrychiolwyr fel buddiant personol a rhagfarnus wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref lle mae eitem berthnasol yn cael ei thrafod.

Pan fydd y Cadeirydd yn cyhoeddi bod eitem berthnasol ar y Rhaglen i gael ei hystyried,

rhaid i'r Cynrychiolydd ddatgan ar unwaith fuddiant personol a rhagfarnus fel cynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor Tref a hysbysu'r Cyngor eu bod yn dibynnu ar yr eithriad ym Mharagraff 12 (2) Cod Ymddygiad y Cyngor Tref. Cyn belled â mai bod yn gynrychiolydd y Cyngor yw'r unig fuddiant sydd angen ei ddatgan, bydd hyn yn caniatáu i'r Aelod aros, cymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar yr eitem gan gynnwys ceisiadau am gymorth ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar gymeradwyo, cydsynio, trwyddedu, caniatáu neu gofrestru, ac mewn achosion o'r fath bydd angen i'r cynrychiolydd ddatgan buddiant rhagfarnus a gadael y Siambr.

12.0 Cod Ymddygiad

Os bydd y corff yn gweithredu ei God Ymddygiad ei hun, yna Cod y Corff hwnnw sy'n goruchafu yn ystod cyfarfodydd y corff hwnnw. Os nad oes gan y corff ei God Ymddygiad ei hun, yna rhaid i'r Cynrychiolydd gadw at y cod a fabwysiadwyd gan Gyngor Tref y Rhyl.

LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL

1. Cyfrifoldebau

I'r Cyngor Tref
I'r gymuned leol
I Gorff Llywodraethu'r Ysgol

2. Rôl, pwmpas a gweithgareddau

Cynrychioli'r Cyngor Tref a'r Gymuned leol ar Gorff Llywodraethol ysgol gynradd benodol a darparu dolen rhwng yr Ysgol a'i chymuned leol, a'r ffordd arall.

Adrodd i'r Cyngor, o fewn unrhyw gyfyngiadau priodol a bennwyd gan y Corff Llywodraethol neu'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd ganddo, ar faterion o ddiddordeb i'r Cyngor Tref a'r gymuned ehangach yn ymwneud â rhedeg yr ysgol a'r ffordd arall.

Cynllun Strategol Cyngor Tref y Rhyl 2012 - 2017

Ar ôl mabwysiadu Cynllun Strategol y Cyngor, mae gofyn nawr i gynrychiolwyr hyrwyddo nodau ac amcanion y Cyngor pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd cyrff allanol.

3. Anghymhwyster ac ymrwymadau

Ni ddylai'r Aelod a benodwyd fod â mwy na 2 Swydd Llywodraethwr, sut bynnag y caiff ei benodi.

Rhaid i'r Aelod a benodwyd fod yn barod i gael unrhyw archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol / Amddiffyn Plant sy'n ofynnol gan yr ysgol.

Rhaid i'r Aelod a benodwyd lofnodi Cod Ymddygiad y Cyrff Llywodraethol a glynu ato.

Rhaid i'r Aelod a benodwyd fod yn barod i fynychu cyfarfodydd rheolaidd y Corff Llywodraethol.

Rhaid i'r Aelod a benodwyd fod yn barod i fynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd gan yr ysgol neu gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

4. Cyfnod y Penodiad

Caiff y Cyngorydd ei benodi gan y Cyngor Tref am gyfnod o bedair blynedd, neu os caiff ei benodi yng nghanol y cyfnod, am gyfnod byrrach fel y penderfynwyd gan y Corff Llywodraethol.

Pan fydd cyfnod Cyngorydd fel Aelod o'r Cyngor yn dod i ben, bydd ei Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol yn dod i ben ar unwaith.

5. Ymrwymïadau Adrodd

Bydd gofyn i'r Llywodraethwr a benodwyd, yn amodol ar ymrwymïadau cyfrinachedd, ddwyn i sylw'r Cyngor, trwy drefniadau pwyllgor arferol y Cyngor, unrhyw fater a godwyd gan yr Ysgol a fyddai o ddiddordeb i'r gymuned ehangach.

Yn yr un modd, bydd gofyn i'r Llywodraethwr a benodwyd ddwyn i sylw Corff Llywodraethol yr Ysgol unrhyw fater yr hoffai'r Cyngor ei god a lle'n briodol, hyrwyddo gweithgareddau / cystadleuthau'r Cyngor Tref o fewn yr ysgol.

6. Gofynion Eraill

Ar achlysur, gellir gwahodd cynrychiolwyr yr ysgol i fynychu neu gyfarfod y Cyngor. Byddai gofyn i'r Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r fath.

HYRWYDDWYR A BENODWYD

[I'w gynnwys maes o law]

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi penodi dau Hyrwyddwr Gweithgareddau Corfforol i oruchwylio cyflawniad ei Raglen Gweithgareddau Corfforol.

Ar ôl mabwysiadu Cynllun Strategol y Cyngor 2012-2017 bydd angen i'r Cyngor, maes o law, benodi Hyrwyddwyr pellach ar gyfer y Rolau canlynol

Hyrwyddwr Democratiaeth
Hyrwyddwr Ieuenctid